



Prifysgol Abertawe
Swansea University

Modiwlau cyfrwng Cymraeg Israddedig 2016-17

Welsh-medium Modules
Undergraduate 2016-17



Cynnwys

Manteision astudio trwy gyfrwng y Gymraeg ym Mhrifysgol Abertawe	3
Y Modiwlau Fesul Coleg	5
Almaeneg	5
Astudiaethau'r Cyfryngau a Chysylltiadau Cyhoeddus	5
Cymdeithas a Diwylliant	8
Cymraeg	8
Ffrangeg	11
Hanes	13
Sbaeneg	15
Peirianeg	16
Gwyddor Chwaraeon	16
Nyrsio	17
Bydwreigiaeth	18
Gwaith Cymdeithasol	18
Meddygaeth, Biocemeg a Geneteg	19
Y Gyfraith	21
Biowyddorau	22
Daearyddiaeth	22
Ffiseg	25
Mathemateg	26
Profiad Gwaith, Cyflogadwyedd a Chyfleoedd Rhyngwladol	27

Manteision astudio trwy gyfrwng y Gymraeg ym Mhrifysgol Abertawe

Y budd i'ch datblygiad addysgol chi

Mae parhau i dderbyn eich haddysg trwy'r Gymraeg wedi i chi astudio trwy gyfrwng yr iaith mewn ysgol neu goleg addysg bellach yn fantais werthfawr o ran eich datblygiad personol. Y mae cyfleoedd ar gael o fewn darpariaeth y Brifysgol i fyfyrwyr sy'n rhugl ac yn hyderus yn yr iaith yn ogystal ag i'r rhai sy'n llai hyderus neu sy'n ddysgwyr pur. Cynigir cyrsiau gradd cyflawn trwy'r Gymraeg, gyrsiau lle mae modiwlau penodol ar gael yn y Gymraeg, ac mewn rhai pynciau mae'n bosibl dilyn dosbarthiadau seminar a thiworial ar gyfer modiwlau a ddysgir yn bennaf drwy gyfrwng y Saesneg. Mae hawl gennych i gyflwyno gwaith cwrs ac i sefyll eich arholiadau yn y Gymraeg, hyd yn oed os ydych wedi dewis dilyn cyrsiau cyfrwng Saesneg. O barhau i astudio y cyfan, neu elfen, o'ch cwrs trwy gyfrwng y Gymraeg, byddwch yn datblygu eich sgiliau yn y ddwy iaith – y Gymraeg a'r Saesneg – gan roi eich hun mewn safle cryfach er mwyn gallu chwarae rhan lawn yn y gymdeithas ddwyieithog sydd ohoni.

Dulliau dysgu arloesol

Mae modiwlau cyfrwng Cymraeg Prifysgol Abertawe yn defnyddio nifer o dechnegau dysgu blaengar, gan gynnwys cipio darlithoedd, deunyddiau dysgu amlgyfrwng, fideo-gynadledda, cyrsiau preswyl, mewnbwn gan ymarferwyr proffesiynol, ac adnoddau arlein, i gefnogi dulliau dysgu mwy traddodiadol, megis darlithoedd a'r llyfrgell. Trwy'r dulliau dysgu hyn, gall myfyrwyr Prifysgol Abertawe gymryd rhan mewn seminarau a darlithoedd a gaiff eu cynnig gan sefydliadau eraill gan roi cyfle i chi fod yn rhan o gymuned addysgol ehangach. Mae yn Abertawe ofod dysgu penodol, yn sgil ein partneriaeth gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, sy'n ein galluogi i wneud hynny.

Sgil ddeniadol i gyflogwyr

Mae gallu mewn mwy nag un iaith yn fantais sylweddol wrth chwilio am waith. Mae gan yr iaith Gymraeg statws swyddogol yng Nghymru sy'n ei gwneud hi'n bwysicach nag erioed i baratoi ar gyfer y byd gwaith ar ôl graddio, yn enwedig gan fod cynifer o weithleoedd yng Nghymru yn chwilio am raddedigion dwyieithog. Mae cyflogwyr, yng Nghymru a thu hwnt, yn ystyried gallu yn y Gymraeg fel sgil ychwanegol yn y gweithle. Felly, gallai astudio trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog ym Mhrifysgol Abertawe fod o fantais fawr i chi wrth i chi chwilio am waith. Yng Nghymru mae nifer cynyddol o gyflogwyr yn datgan fod gallu yn yr iaith yn ddymunol neu'n hanfodol. O astudio trwy'r Gymraeg, mae'n myfyrwyr hefyd yn datblygu sgiliau trawsieithu a'r gallu i ddehongli mewn dwy iaith, sgil sy'n cael ei chydabod yn ddefnyddiol gan gyflogwyr.

Gwerth Rhyngwladol

Mae gwerth rhyngwladol i addysg uwch cyfrwng Cymraeg ac mae Prifysgol Abertawe yn ymfalchïo yn y profiad Cymraeg a Chymreig rydyn ni'n ei gynneg i fyfyrwyr o fewn amgylchedd sydd â phersbectif rhyngwladol. Rydyn ni'n gallu cynnig lleoliadau gwaith heb eu hail gan fod cysylltiadau amlddiwylliannol yn hollbwysig i'r Brifysgol ynghyd â rhoi pwyslais ar ymchwil o safon rhyngwladol. Mae nifer o ddarlithwyr ein cyrsiau cyfrwng Cymraeg yn arbenigwyr byd-eang yn eu meysydd ac felly, mae safon yr addysg yn cyfateb i hynny.

Y Fantais Ariannol

Mae gan fyfyrwyr sy'n dilyn darpariaeth cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog ym Mhrifysgol Abertawe gyfle am fantais ariannol gan fod y rhan fwyaf o'n cyrsiau'n gymwys am Ysgoloriaethau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol ac Ysgoloriaethau a Bwrsariaethau cyfrwng Cymraeg a chyffredinol y Brifysgol. At hynny, mae ymchwil yn dangos fod cyflogau gweithwyr dwyieithog yn uwch ar gyfartaledd.

Budd personol

Mae defnyddio'ch Cymraeg yn medru arwain at fuddiannau addysgiadol, sgiliau a chyflogaeth, ond ni ddylid anghofio'r budd personol a gewch o allu ymwneud â'r gymuned iaith Gymraeg a'i diwylliant ar gampws y Brifysgol. At hynny, mae gallu cyfathrebu mewn mwy nag un iaith yn cadw'r meddwl yn ystwyth ac yn gwneud lles cognyddol, gan gynnwys bod yn fwy creadigol, meddu ar sgiliau meddyliol ehangach a gwell sgiliau mathemategol.

Mentrwch! Does dim gennyh i'w goll!



Y Modiwlau Fesul Coleg

Dyma restr o'r modiwlau cyfrwng Cymraeg y gellir eu hastudio ym Mhrifysgol Abertawe. Mae Lefel 4 yn dynodi modiwlau i fyfyrwyr y flwyddyn gyntaf, Lefel 5 yn dynodi'r ail flwyddyn a Lefel 6 yn dynodi'r drydedd flwyddyn. Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i newid manylion y modiwlau hyn os bydd angen.

COLEG Y CELFYDDYDAU A'R DYNIAETHAU

ALMAENEG

LEFEL 4

MLG160AW a MLG160BW
IAITH ALMAENEG 1
40 CREDYD, SEMESTR 1 a 2

Modiwl iaith ar gyfer y rheini sydd eisoes wedi astudio'r Almaeneg at safon lefel A, sy'n edrych ar amryw o agweddau o gymdeithas Almaenaidd gyfoes er mwyn perffeithio sgiliau ieithyddol a chyflogadwyedd.

ML-104W
HANES A DIWYLLIANT EWROPEAIDD
20 CREDYD, SEMESTR 2

Dyma fodiwl sydd yn archwilio newidiadau allweddol a phellgyrhaeddol yn hanes, syniadaeth a diwylliant Ewrop o 1789 i'r cyfnod modern.

LEFEL 5

MLG260AW a MLG260BW
IAITH ALMAENEG 2
40 CREDYD, SEMESTR 1 a 2

Yn dilyn o MLG160BW, bwriad y modiwlau hyn yw edrych ar amryw agweddau ar y gymdeithas Almaeneg gyfoes er mwyn perffeithio sgiliau ieithyddol a chyflogadwyedd, a pharatoi myfyrwyr ar gyfer y flwyddyn dramor. Cynhelir y dosbarthiadau'n bennaf yn Almaeneg, gan gyfuno sgiliau llafar, clywedol, darllen ac ysgrifennu.

MLG270AW a MLG270BW
IAITH ALMAENEG CANOLRADD 2
40 CREDYD, SEMESTR 1 a 2

Mae'r modiwlau hyn ar gyfer myfyrwyr sydd

wedi dilyn cwrs Almaeneg i ddechreuwy'r yn lefel 4. Bwriad y modiwl yw atgyfnerthu a datblygu'r ddealltwriaeth o'r iaith lafar ac ysgrifenedig a fagwyd yn y modiwlau i ddechreuwy'r. Cynhelir y dosbarthiadau'n bennaf yn Almaeneg, gan gyfuno sgiliau llafar, clywedol, darllen ac ysgrifennu.

LEFEL 6

MLG301AW a MLG301BW
IAITH GYFFREDINOL ALMAENEG 3
20 CREDYD, SEMESTR 1 a 2

Nod y modiwl yw sicrhau bod eich sgiliau cyfieithu i ac o'r Almaeneg yn codi i safon uchel a'ch bod yn siarad Almaeneg yn rhugl.

ML-320W a ML-321W
TRAETHAWD HIR IEITHOEDD MODERN
40 CREDYD, SEMESTR 1 a 2

Bwriad y modiwl hwn yw galluogi myfyrwyr i atgyfnerthu eu sgiliau ymchwil trwy ymchwilio pwnc mewn dyfnder a chyflwyno eu casgliadau ar ffurf traethawd hir.

Am fwy o wybodaeth am unrhyw un o'r modiwlau uchod, gallwch e-bostio Dr Kathryn Jones: k.n.jones@abertawe.ac.uk

ASTUDIAETHAU'R CYFRYNGAU A CHYSYLLTIADAU CYHOEDDUS

LEFEL 4

MSW101
DATBLYGIAD FFILM A SINEMA
20 CREDYD, SEMESTR 1

Nod y modiwl hwn yw rhoi cyflwyniad i un o gyfryngau mwyaf dylanwadol a phoblogaidd ein hoes, sef ffilm. Bydd cyfle i werthfawrogi rhai o glasuron ffilm y byd, i olrhain datblygiad y diwydiant ffilm ac i ystyried rol y sinema o fewn cymdeithas. Trwy gyfrwng dadansoddiad o gynrychiadau penodol bydd y modiwl yn ymdrin â hanes, rhai o syniadau, traddodiadau a ffurfiau y cyfrwng hwn. Mae'r modiwl yn addas i bawb, p'un ai ydych chi wedi astudio ffilm o'r blaen neu beidio.

MSW104

CYFRYNGAU DDOE A HEDDIW 20 CREDYD, SEMESTR 1

Modiwl unigryw sy'n cyfuno golwg ar hanes darlledu gyda chyflwyniad i'r cyfryngau mwyaf cyfoes. O ddechreuadau radio hyd at gyfryngau cymdeithasol fel Facebook a Twitter, byddwn yn edrych ar hanes y cyfryngau ac yn archwilio'r berthynas rhyngddyn nhw a'u cymdeithas ar hyd y degawdau a'r canrifoedd. Does dim rhaid eich bod chi wedi astudio'r cyfryngau eisoes cyn gwneud y modiwl hwn.

MSW106

CYSYLLTIADAU CYHOEDDUS: CYFATHREBU STRATEGOL 20 CREDYD, SEMESTR 2

Gan gyfuno theori a gweithgareddau ymarferol bydd y modiwl yn archwilio y technegau a ddefnyddir mewn cysylltiadau cyhoeddus, hyrwyddo a phropaganda a bydd yn addysgu myfyrwyr am hanfodion creu ymgyrch hyrwyddo. Cyflwynir myfyrwyr i dechnegau penodol megis trefnu ymgyrch, ysgrifennu datganiad i'r wasg a datblygu syniadau creadigol ar gyfer ymgyrchoedd. Fe roddir pwyslais penodol ar gysylltiadau gyda'r wasg a'r rol a chwaraeir gan gysylltiadau cyhoeddus a phropaganda wrth ddylanwadu ar yr agenda newyddion a barn gyhoeddus.

MSW123

SGILIAU CYFRYNGAU ALLWEDDOL 20 CREDYD, SEMESTR 2

Ar y modiwl hwn cewch gyfle i ennill amrediad o sgiliau ymarferol sy'n allweddol i waith cynhyrchu cyfryngol. Y pum prif agwedd a gaiff eu cyflwyno yw: gwaith ffilmio gyda camera uned sengl, cyflwyno a chyfweld, ymchwilio, recordio sain, golygu llun a sain.

CYMRU: Y SENEDD, Y STRAEON A'R SPIN

MSW 107

20 CREDYD, SEMESTER

Amcan y modiwl yw rhoi dealltwriaeth i fyfyrwyr o'r berthynas agos a symbiotig sy'n bodoli rhwng y diwydiant cyfathrebu, newyddiaduraeth a gwleidyddiaeth yn y Gymru ddatganoledig. Yn gynsail i'r modiwl bydd trafodaeth o'r modd y mae technegau cyfathrebu gwleidyddol, lobio, cysylltiadau cyhoeddus a marchnata yn effeithio ar ein dealltwriaeth o'n dinasyddiaeth.

LEFEL 2

MSW200

SGILIAU CYFRYNGAU YMARFEROL 20 CREDYD, SEMESTR 2

Modiwl sy'n eich cyflwyno i rai o'r sgiliau ymarferol sydd eu hangen mewn gyrfa yn y diwydiannau creadigol. Mewn grwpiau dan gyfarwyddyd arbenigol, byddwch yn datblygu gwefan a blog ar bwnc o'ch dewis chi, a hefyd yn saethu a golygu fideo byr gyda chyfarpar proffesiynol, i'w roi ar YouTube. Fe fyddwch chi'n rhoi'r cyfan at ei gilydd mewn prosiect gorffenedig.

MSW202

Y CYFRYNGAU A CHYMDEITHAS 20 CREDYD, SEMESTR 1

Dyma fodiwl cyfoes sy'n cynnig golwg ar berthynas y cyfryngau a chymdeithas. Bydd y modiwl yn ymdrin â nifer o bynciau perthnasol a chyfredol, gan gynnwys chwaeth a gwedduster, dylanwad llywodraethol ar y cyfryngau, preifatrwydd yng nghyd-destun cyfryngau digidol, a sut y caiff y cyfryngau ei integreiddio gyda'n bywyd bob dydd.

MSW205

CREU A CHYFLWYNO TESTUNAU NEWYDDION 20 CREDYD, SEMESTR 1

Nod y modiwl hwn yw rhoi cyfle i chi weithio'n greadigol yn y maes digidol. Byddwch yn derbyn hyfforddiant ar sut i ddatblygu syniad ar draws ystod o ffurfiau mewn prosiect addas ar gyfer y cynulleidfaoedd penodol a hynny ar lefel lleol. Bydd y modiwl yn cynyddu eich gallu ysgrifenedig, llafar ac ymarferol ac yn cynnig hyfforddiant ar sut i werthu syniad creadigol yn effeithiol i eraill. Cewch eich hannog i werthfawrogi testunau ysgrifenedig a chlyweledol amrywiol a dod i ddeall pŵer y newyddiadurwr ddinesydd.

MSW206

DRAMA A DOGFEN AR Y SGRIN 20 CREDYD, SEMESTR 2

Mae'r modiwl hwn yn rhoi cyfle i fyfyrwyr ddysgu am hanes a datblygiad dau o genres pwysicaf ffilio a theledu, sef drama a dogfen. Ceir cyfle i ddadansoddi cynrychiadau rhai o brif arloeswyr y ddau faes megis Robert Flaherty, John Grierson, Dennis Potter a Jimmy McGovern ac ystyried eu cyfraniad i ddatblygiad y cyfryw ffurfiau. Ceir cyfle hefyd i ystyried datblygiadau newydd a sut mae'r ddwy genre wedi addasu, uno neu ddatblygu dros y blynyddoedd i sicrhau eu goroesiad fel ffurfiau difyr a phoblogaidd.

MSW207

CYFATHREBU DIGIDOL 20 CREDYD, SEMESTR 2

Bydd y modiwl hwn yn cyflwyno myfyrwyr i'r sgiliau a'r wybodaeth anghenrheidiol sydd ei angen er mwyn datblygu a chyflwyno ymgyrch cysylltiadau cyhoeddus lwyddiannus, gan ddefnyddio cyfres o weithgareddau ymarferol. Er bod pwyslais ymarferol i'r modiwl, bydd hefyd yn canolbwyntio ar gysylltiadau cyhoeddus ar lefel rheolaeth a strategol, fel bod modd i'r myfyrwyr ddefnyddio theori er mwyn dyfnhau a chyfoethogi eu gwaith ymarferol. Bydd y gwaith ymarferol yn efelychu naws cwmni ymgynghori cysylltiadau cyhoeddus a bydd cyfle i'r myfyrwyr brofi'r swyddi, cyfrifoldebau, strwythurau trefniadol, protocol a'r cyfarwyddiadau briffio sydd eu hangen ar gyfer creu a rhedeg ymgyrch cysylltiadau cyhoeddus effeithiol.

MSW208

THEORI CYSYLLTIADAU CYHOEDDUS 20 CREDYD, SEMESTR 1

Mae nifer o ysgolheigion yn astudio cysylltiadau cyhoeddus, ac yn datblygu corff o ymchwil sydd yn manylu dylanwad cysylltiadau cyhoeddus ar gymdeithas, a'r modd y mae'n lliwio fel y gwelwn y byd. Drwy astudiaeth fanwl o gyfres o achosion busnes cyfoes ac amrywiol, bydd y modiwl hwn yn ystyried rhai o ganlyniadau cymdeithasol, diwylliannol a gwleidyddol y diwydiant. Gwneir hyn drwy ddefnyddio fframwaith werthuso a fydd yn cynnwys safbwyntiau diwylliannol a rhethregol. Cewch y cyfle i edrych ar y cwestiynau moesol y gall ymarferwyr eu hwynebu o ran cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol, yn ogystal â'r codau rheoleiddio sy'n llywodraethu'r diwydiant cysylltiadau cyhoeddus.

LEFEL 6

MSW302

DRAMA A DOGFEN AR Y SGRIN 20 CREDYD, SEMESTR 2

Mae'r modiwl hwn yn rhoi cyfle i fyfyrwyr ddysgu am hanes a datblygiad dau o genres pwysicaf film a theledu, sef drama a dogfen. Ceir cyfle i ddadansoddi cynrychiadau rhai o brif arloeswyr y ddau faes megis Robert Flaherty, John Grierson, Dennis Potter a Jimmy McGovern ac ystyried eu cyfraniad i ddatblygiad y cyfryw ffurfiau. Ceir cyfle hefyd

i ystyried datblygiadau newydd a sut mae'r ddwy genre wedi addasu, uno neu ddatblygu dros y blynyddoedd i sicrhau eu goroesiad fel ffurfiau difyr a phoblogaidd.

MSW303

TRAETHAWD ESTYNEDIG Y CYFRYNGAU 40 CREDYD, SEMESTR 1 a 2

Mae'r modiwl hwn yn rhoi cyfle i fyfyrwyr sy'n awyddus i lunio traethawd ymchwil sylweddol ar ryw agwedd ar y cyfryngau yng Nghymru a thu hwnt, boed hynny yn ffilm, teledu, radio neu'r cyfryngau newydd. Mae'r modiwl hwn yn gyfle gwych i chi ymchwilio yn fanwl i faes sydd yn eich diddori gan brofi eich gallu i weithio yn annibynnol.

MSW304

IAITH A'R CYFRYNGAU 20 CREDYD, SEMESTR 2

Dyma fodiwl sy'n archwilio'r berthynas rhwng iaith a chyfryngau. Byddwn yn dadansoddi sut mae cyfryngau yn creu 'ystyr' drwy'r iaith maen nhw'n eu defnyddio, yn ystyried sut gall y cyfryngau ddefnyddio iaith i greu portreadau cadarnhaol neu negyddol o wahanol garfannau, yn archwilio iaith y newyddion, a gweld sut mae iaith yn newid yn ôl y cyfrwng a'r gynulleidfa.

MSW305

CYNHYRCHU A GWERTHU:CYNHYRCHIAD AML-BLATFFORM 20 CREDYD, SEMESTR 1

Mae'r modiwl hwn yn rhoi cyfle i chi weithio'n annibynnol i greu prosiect aml-gyfrwng ar destun o'ch dewis ac mewn ymgynghoriad â'r tiwtor. Bydd cyfle i ddefnyddio amrediad o sgiliau ac adnoddau er mwyn gwireddu eich prosiect a bydd yn cynnig deunydd teiwlwg ar gyfer portffolio i'w ddangos i ddarpar gyflogwr.

MSW306

STRATEGAETH, BRANDIO A MARCHNATA 20 CREDYD, SEMESTR 2

Amcan y modiwl hwn yw rhoi i chi'r ddealltwriaeth, ar lefel uwch, o'r amryw dechnegau ymarferol, yr egwyddorion a'r theorïau i'ch galluogi i ddeall sut i greu ymgyrchoedd cyfathrebu strategol ac integredig gyda phwyslais arbennig ar reoli brand a marchnata. Drwy edrych ar ymgyrchoedd sawl brand blaenllaw, byddwch

yn gweld sut mae brandio, marchnata, hysbysebu a chysylltiadau cyhoeddus yn cydlynw i greu ymgyrchoedd cyfathrebu strategol a chofiadwy.

MSW307

TRAETHAWD ESTYNEDIG CYSYLLTIADAU CYHOEDDUS

40 CREDYD, SEMESTR 1 a 2

Dyma gyfle i chi wneud gwaith ymchwil helaeth ar agwedd o gysylltiadau cyhoeddus neu gyfathrebu strategol sydd o ddiddordeb penodol i chi, boed hynny'n ymwneud ag ymgyrchoedd cyfathrebu, hysbysebu, cysylltiadau cyhoeddus neu frandio. Byddwch yn derbyn hyfforddiant sgiliau ymchwil ffrufiol cyn mynd ati i ymrafael â'r maes dewisedig, a all fod yn ymwneud â Chymru neu du hwnt. Drwy waith annibynnol a chyfarfodydd rheolaidd gyda'ch goruchwyliwr ymchwil, byddwch yn ennyn sgiliau ymchwil tra hefyd yn datblygu eich dealltwriaeth o faes cyfnewidiol a chyffrous.

MSW308

CYFATHREBU CORFFORAETHOL 20 CREDYD, SEMESTR 1

Mae'r modiwl hwn yn edrych ar ofynion cyfathrebu corfforaethol sefydliadau mawr ar draws y sectorau preifat a chyhoeddus. Mae'n dadansoddi'r theori a realiti ymarferol o reoli enw da corfforaethol, cyfathrebu adeg argyfwng a'r rôl sydd gan gyfathrebu i'w chwarae wrth sicrhau parhad busnes. Bydd hefyd yn gwerthuso ac yn eich ymglyfarwyddo ag elfennau ymarferol, megis y gofynion statudol sy'n sail i'r gwaith o ddatblygu adroddiadau blynyddol effeithiol. Mae hwn yn fodiwl ag iddo elfen gadarn o brofiad ymarferol, a fydd yn rhoi i chi brofiadau megis cyfweiliadau teledu byw a phrofiad o ymwneud â'r wasg.

Am fwy o wybodaeth am unrhyw un o'r modiwlau uchod, gallwch e-bostio Non Vaughan Williams: n.v.williams@abertawe.ac.uk neu Iwan Williams, iwan.williams@abertawe.ac.uk

CYMDEITHAS A DIWYLLIANT

LEFEL 4

AHT100

CYMDEITHAS CYMRU GYFOES 20 CREDYD, SEMESTR 2

Un o fodiwlau Cymraeg mwyaf poblogaidd y

Brifysgol, mae Cymdeithas Cymru Gyfoes ar gael i bob myfyriwr ar y campws, beth bynnag fo'ch cwrs. Gyda darlithoedd ar bynciau mor amrywiol â chyfraith Cymru a'r cyfryngau newydd, mae'r modiwl hwn yn sylfaen wychi astudiaethau pellach, ac yn eich helpu chi i ddod i'r afael â'r Gymru yr ydych chi'n byw ynddi.

Am fwy o wybodaeth am y modiwlau uchod, gallwch e-bostio Non Vaughan Williams: n.v.williams@abertawe.ac.uk

CYMRAGEG

LEFEL 4

CY-116 SGILIAU IAITH: CYFLWYNO 20 CREDYD, SEMESTR 1

Dyma'r cyntaf o dri modiwl dilynol ar y radd Gymraeg sy'n rhoi cyfle i fyfyrwyr wella cywirdeb eu Cymraeg. Ar y modiwl hwn, dysgir sut i ddadansoddi a defnyddio gwahanol rannau ymadrodd (e.e. berfau, ansoddeiriau, cysyllteiriau). Rhoddir sylw hefyd i sgiliau cyflwyno llafar.

CY-118 TESTUN A CHYD-DESTUN 20 CREDYD, SEMESTR 2

Bydd y modiwl yn canolbwyntio ar dri chfnod, sef i) 1282 a'i ganlyniadau ii) 1735 a'r Diwygiad Methodistaidd iii) 1936 Penberth a'i ganlyniadau. Edrychir ar ddetholiad o weithiau, yn rhyddiaith ac yn farddoniaeth, sy'n perthyn i'r cyfnodau dan sylw a thrafodir y modd yr ymatebodd beirdd a llenorion i'r tri yn y gweithiau dan sylw.

CY-136 SGILIAU BEIRNIADOL 20 CREDYD, SEMESTR 1

Bydd y modiwl hwn yn meithrin sgiliau beirniadol myfyrwyr trwy eu hyfforddi i adnabod nodweddion amryfal ffurfiau llenyddol ac i allu eu trafod yn feirniadol. Trwy ddefnyddio detholiad o destunau cyfoes a fydd yn cynnwys gweithiau buddugol yr Eisteddfod Genedlaethol ddiweddaraf daw'r myfyrwyr yn ymwybodol o natur y diwylliant llenyddol a chelfyddydol Cymraeg.

CY-130

**CYFLWYNO'R SEILIAU
20 CREDYD, SEMESTR 1**

Modiwl i fyfyrwyr ail iaith yw hwn

Fe'i cyflwynir trwy gyfrwng dulliau dysgu dwys. Byddwn yn cyflwyno'r prif batrymau sydd eu hangen ar fyfyrwyr er mwyn iddynt ddefnyddio'r pedwar sgil hanfodol - siarad, gwranddo, darllen ac ysgrifennu - yn effeithiol ac yn hyderus.

CY-131

**CYMRAEG YSGRIFENEDIG
20 CREDYD, SEMESTR 2**

Modiwl i fyfyrwyr ail iaith yw hwn

Fe'i cyflwynir trwy gyfrwng dulliau dysgu dwys. Nod y modiwl hwn fydd cyflwyno'r iaith lenyddol i'r myfyrwyr. Pwysleisir nad iaith newydd mo'r iaith lenyddol, ond bod iddi ffurfiau a swyddogaeth arbennig. Cyflwynir y ffurfiau a'r patrymau hyn ochr yn ochr â'r ffurfiau a astudiwyd yn y modiwlau CY-130 Cyflwyno'r Seiliau a CY-132 Cadarnhau'r Seiliau yn y semestr cyntaf. Rhoddir sylw i'r treigladau, i ansoddeiriau (patrymau cymharu), i'r rhifolion a'r trefnolion, i'r arddodiaid, ac i gystrawen (y cymal enwol a'r cymal perthynol). Rhoddir sylw hefyd i eirfa a'r nod fydd cyfoethogi iaith y myfyrwr, gan adeiladu ar y gwaith a wnaed yn y semestr cyntaf.

CY-132

**CADARNHAU'R SEILIAU
20 CREDYD, SEMESTR 1**

Modiwl i fyfyrwyr ail iaith yw hwn

Fe'i cyflwynir trwy gyfrwng dulliau dysgu dwys. Mae'r modiwl hwn yn cydreddeg â modiwl CY-130 Cyflwyno'r Seiliau. Bydd yn canolbwyntio ar gadarnhau sgiliau ysgrifennu, gwranddo a darllen y myfyrwyr ac yn eu harfogi'n ieithyddol ar gyfer y radd BA yn y Gymraeg. Yn ogystal â datblygu'r sgiliau hyn, bydd yn cynnig cyfle i fyfyrwyr ddadansoddi gwallau mewn clinig iaith ac ymglyfarwyddo â ffurfiau a chyweiriau anffurfiol y Gymraeg ac amrywiadau tafodieithol.

CY-135

**LLENYDDIAETH GYFOES
20 CREDYD, SEMESTR 2**

Modiwl i fyfyrwyr ail iaith yw hwn

Bydd y modiwl hwn yn Semestr 2 yn cyflwyno detholiad o destunau llenyddol (cerddi gan Menna Elfyn, Gwyn Thomas ac eraill, straeon byrion gan Kate Roberts, ac un nofel gyfoes). Byddwch yn cael eich hyfforddi i drafod testunau yn feirniadol trwy gyfrwng y Gymraeg. Byddwch

hefyd yn dod i wybod mwy am y byd llenyddol Cymraeg cyfoes.

CY-108

**SGILIAU CYFLWYNO A CHYFATHREBU
20 CREDYD, SEMESTR 2**

Modiwl i fyfyrwyr ail iaith yw hwn

Nod y modiwl fydd meithrin sgiliau llafar, yn cynnwys gwranddo, siarad, gwyllo a darllen ar goedd.

CY-111

**GOLWG AR GYMRU
20 CREDYD, SEMESTR 1**

Modiwl i fyfyrwyr ail iaith yw hwn

Trwy'r modiwl hwn fe fyddwch yn dod i adnabod Cymru yn well. Byddwch yn edrych ar rai o'r prif benodau yn ein hanes, yn ystyried cyfraniad rhai o'n harwyr mawr ac yn edrych ar rai o'r agweddau pwysicaf ar ein diwylliant cenedlaethol. Erbyn diwedd y modiwl fe fyddwch wedi cael golwg eang ar Gymru dros y canrifoedd, ac wedi dechrau deall o ble y daethom fel cenedl gyfoes.

LEFEL 5

CY-210

**SGILIAU IAITH: CADARNHAU
20 CREDYD, SEMESTR 2**

Prif nod y modiwl yw cynorthwyo myfyrwyr i allu dadansoddi a chyfansoddi gwahanol fathau o frawddegau Cymraeg yn gywir ac yn hyderus. Trwy'r tasgau a'r seminarau cyson byddwch yn astudio ac yn defnyddio brawddegau syml, cyfansawdd a chymhleth. Byddwn hefyd yn astudio morffoleg geiriau Cymraeg.

CY-212

**CLASUR LLENYDDIAETH GYMRAEG
20 CREDYD, SEMESTR 2**

Arolwg o'r prif symudiadau a'r prif gyfnodau yn y traddodiad llenyddol Cymraeg hyd 1900 trwy ganolbwyntio ar destunau ac awduron penodol. Y prif feysydd a drafodir fydd: i) y bardd llys (Aneurin, Taliesin, 'Edmyg Dinbych', Cynddelw, Prydydd y Moch); ii) y cyfarwydd (detholiad o'r Mabinogion); iii) Beirdd yr Uchelwyr (lolo Goch, Guto'r Glyn ac eraill); iv) dadeni llenyddol y 18g (Goronwy Owen a Lewis Morris); v) Gweledigaethau y Bardd Cwsg Ellis Wynne.

CY-213

LLENYDDIAETH DDIWEDDAR

20 CREDYD, SEMESTR 1

Trwy astudio detholiad o destunau yn eu cyd-destunau llenyddol a hanesyddol byddwn yn adeiladu darlun nodweddiadol o lenyddiaeth Gymraeg yr ugeinfed ganrif. Ymhlith y prif awduron a astudir fydd: Kate Roberts, D. J. Williams, T. Gwynn Jones, Saunders Lewis, R. Williams Parry, T. H. Parry-Williams.

CY-215

CYMRU A'I SEFYDLIADAU

20 CREDYD, SEMESTR 1

Fel y mae enw'r modiwl yn ei awgrymu, byddwn yn rhoi sylw i gefndir, datblygiad a swyddogaeth rhai o'n prif sefydliadau cenedlaethol. Ar y sefydliadau diwylliannol y bydd y pwyslais, a chawn weld fod gwreiddiau nifer o'r rhain - sefydliadau megis Llyfrgell Genedlaethol Cymru a Phrifysgol Cymru - yn ymestyn yn ôl i chwarter olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Trafodir yr Eisteddfod Genedlaethol sydd yn sefydliad hynafol ac unigryw sy'n perthyn i ni, y Cymry. Rhoddir sylw hefyd i sefydliadau mwy diweddar, fel S4C, Comisiynydd y Gymraeg a Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

CY-222

GWEITHIO MEWN DWY IAITH

20 CREDYD, SEMESTR 2

Dyma fodiwl sy'n archwilio natur dwyieithrwydd a sefydliadau dwyieithog yng Nghymru, gan edrych ar rôl cyfieithu mewn sefydliadau o'r fath. Rhydd gyd-destun deallusol i waith y cyfieithydd, cyn cychwyn ar y dasg o ddysgu sut i gyfieithu.

CY-229

CYFLWYNIAD I YSGRIFENNU CREADIGOL

20 CREDYD, SEMESTR 2

Yn y modiwl hwn, bydd y myfyrwr yn cael cyfle i ymgysguwyddo a rhai o brif elfennau a nodweddiad ysgrifennu creadigol, a'u hymarfer, gyda'r nod o lunio ffolio neu gyfrol o waith creadigol mewn sawl cyfrwng, gan gynnwys barddoniaeth a rhyddiaith. Byddwn yn darllen ac yn dadansoddi testunau llenyddol yn y dosbarth er mwyn archwilio'r elfennau "creadigol" ynddynt, a gosodir gwaith darllen rheolaidd. Gosodir tasgau ysgrifennu rheolaidd, ond disgwylir hefyd i fyfyrwr fwrw ati'n annibynnol i ysgrifennu darnau ychwanegol yn ôl eu diddordeb personol eu hunain. Bydd cyfle i'r myfyrwr drafod eu cynhyrchion gyda'u cyd-fyfyrwr a chyda thiworiaid y modiwl a fydd yn rhoi adborth a chynghor iddynt.

CY-280

SGILIAU IAITH: YMARFER

20 CREDYD, SEMESTR 1

Modiwl i fyfyrwr ail iaith yw hwn

Amcan y modiwl hwn yw rhoi cyfle i chi ymarfer y sgiliau ieithyddol a ddsygwyd yn ystod y flwyddyn gyntaf, a hynny ar lafar ac yn ysgrifenedig. Yn ogystal â hyn, byddwch yn dysgu rhagor am wahanol ffurfiau berfol, rhannau ymadrodd, cymalau ac amrywiol frawddegau, er mwyn meithrin eich sgiliau cystrawennol yng nghyd-destun gwahanol arddulliau ysgrifenedig. Ar lafar, rhoddir sylw i oslef ac ynganiad yn ogystal â chywirdeb, hyder a rhuglder.

CY-281

CYMRAEG PROFFESIYNOL

20 CREDYD, SEMESTR 1

Bydd y modiwl hwn yn cyfuno astudio'r iaith a'i defnyddio'n ymarferol. Bydd yn edrych ar nodweddiad bwletin radio, datganiad i'r wasg ar ran y llywodraeth, a llythyr cais am swydd a chyflwyniad llafar perswadiol.

LEFEL 6

CY-305

DAFYDD AP GWILYM

20 CREDYD, SEMESTR 1

Astudir detholiad o ryw 15 o gerddi Dafydd ap Gwilym er mwyn gweld pa mor amrywiol ydynt o ran eu cynnwys a'u themâu a'u hadeiladwaith. Bydd disgwyl i fyfyrwr baratoi sylwadau ar gerddi a'u cyflwyno yn y dosbarthiadau seminar. Ar y canu serch y bydd y pwyslais pennaf ond edrychir hefyd ar rai mathau eraill o gerddi a luniodd y bardd. Ceisir egluro cyfraniad Dafydd ap Gwilym i'r traddodiad barddol Cymraeg, a'i le yn natblygiad ei brif fesur, y cywydd.

CY-339

IAITH A CHYMDEITHAS

20 CREDYD, SEMESTR 1

Mae'r modiwl hwn yn edrych ar sut mae iaith a chymdeithas yn dylanwadu ar ei gilydd. Edrychir ar enghreifftiau o gymunedau ieithyddol ledled y byd ond cymhwysir prif egwyddorion ieithyddiaeth gymdeithasol i'r cyd-destun Cymraeg. Fel rhan o'r modiwl, bydd myfyrwr yn gwneud astudiaeth o'r defnydd o'r Gymraeg mewn ardal benodol gan roi ystyriaeth i ffactorau ieithyddol/gymdeithasol. Rhoddir ystyriaeth hefyd i'r ffactorau cymdeithasol sy'n creu newidiadau mewn ieithoedd a'r defnydd o ieithoedd gwahanol mewn cyd-destunau

gwahanol. Cyflwynir y cysyniad o gynllunio ar gyfer iaith.

CY-335

CYFIEITHU

20 CREDYD, SEMESTR 2

*Fel rheol, ni ellir dewis y modiwl hwn oni bai eich bod wedi dilyn CY-222 Gweithio Mewn Dwy Iaith yn eich ail flwyddyn. Dyma fodiwl delfrydol ar gyfer y sawl sy'n ystyried gyrfa yn y diwydiant cyfieithu wedi iddo/iddi raddio. Nod y modiwl yw dysgu egwyddorion cyfieithu mewn modd systematig, gan ddatblygu arferion da.

CY-342

TRAETHAWD ESTYNNEDIG

40 CREDYD, SEMESTR 1 a 2

*Fel rheol, ni ellir dewis y modiwl hwn oni baieich bod wedi ennill marc o dros 55% yn CY-210 Sgiliau Iaith: Cadarnhau. Mae'r modiwl hwn yn rhoi cyfle i fyfyrwyr sy'n awyddus i lunio traethawd ymchwil sylweddol ar ryw agwedd ar yr iaith Gymraeg, llenyddiaeth Gymraeg neu'r diwylliant Cymraeg. Ar ôl cytuno ar bwnc gydag aelod o staff Adran y Gymraeg byddwch yn cael eich hyfforddi i arfer sgiliau ymchwil datblygedig. Byddwch yn gweithio'n annibynnol ond yn cyfarfod â'ch cyfarwyddwr yn rheolaidd. Bydd disgwyl i chi gyflwyno drafftiau yn gyson a byddwch yn derbyn adborth arnynt. Bydd y modiwl yn profi eich gallu i weithio'n annibynnol a bydd yn eich cymhwyso ar gyfer ymchwil bellach ar ôl graddio.

CY-344

CREFFY CYFARWYDD

20 CREDYD, SEMESTR 2

Y mae chwedlau'r Mabinogion - un ar ddeg o straeon rhyddiaith sydd wedi eu cadw o'r Oesoedd Canol - yn llawn arwyr ac anturiaethau, cewri, corachod a chariadon, ac yn rhoi cipolwg hynod inni ar natur adloniant y llys yn y cyfnod hwnnw. Trwy ganolbwyntio ar ddetholiad o'r chwedlau hyn, a dadansoddi eu cynnwys, arddull a themâu, ceisir dangos pam y maent yn cael eu cyfrif ymhlith prif drysorau llenyddiaeth Gymraeg, ac yn destunau o statws rhyngwladol.

CY-348

DIDDANWCH, DYSG A DEFOSIWN

20 CREDYD, SEMESTR 2

Yn y modiwl hwn, edrychir ar dair gwedd ar lenyddiaethardrothwyacynystodyddeunawfed ganrif, yn farddoniaeth ac yn rhyddiaith, a hynny o dan y penawdau diddanwch, dysg a defosiwn.

Cynrychiolir y diddanwch gan y dramâu moes, yr hen benillion, y baledi, yr anterliwtiau a chan Gweledigaethau Ellis Wynne. Daw'r ddysg i'r amlwg yn llyfr "hanes" Theophilus Evans, Drych y Prif Oesoedd, ynghyd ag ymgais yr awdur i droi'r hanes yn destun balchder cenedlaethol. Y testunau sy'n gysylltiedig â defosiwn yw'r Salmâu Cân, penillion y Ficer Prichard, emynau Pantycelyn a gwaith rhyddiaith yr un awdur, Y Cyfarwyddwr Priodas.

CY-351

SGILIAU IAITH: MEISTROLI

20 CREDYD, SEMESTR 1

Amcan y modiwl fydd cywreinio sgiliau ieithyddol y myfyrwyr yn ysgrifenedig ac ar lafar. Rhoddir pwyslais ar ddarllen ac ysgrifennu'n gywir. Bydd dwy awr o ddosbarthiadau ysgrifennu a gramadeg ac awr o waith llafar bob wythnos.

CY-352

GWLAD BEIRDD A STORIWYR

20 CREDYD, SEMESTR 1

Wrth ddilyn y modiwl hwn bydd myfyrwyr yn astudio detholiad o destunau llenyddol o'r 20 ganrif a'r 21 ganrif. Astudir cerddi gan Waldo Williams, Gwyn Thomas, Alan Llwyd ac eraill, stori fer hir gan Kate Roberts, drama gan Saunders Lewis a nofelau gan Caradog Prichard, Alun Jones a Mihangel Morgan.

Am fwy o wybodaeth am unrhyw un o'r modiwlau uchod, gallwch e-bostio Dr Cynfael Lake
a.c.lake@abertawe.ac.uk

FFRANGEG

LEFEL 4

MLF10AW

**CYFLWYNIAD I ASTUDIAETHAU DIWYLLIANNOL
FFRENGIG (A)**

10 CREDYD, SEMESTR 1

Dyma fodiwl sy'n cyflwyno diwylliant Ffrengig i fyfyrwyr. Modiwl amlddisgyblaethol ydyw sy'n cyflwyno hanes cymdeithasol a llenyddiaeth.

MLF10BW

CYFLWYNIAD I ASTUDIAETHAU DIWYLLIANNOL FFRENGIG (B)

10 CREDYD, SEMESTR 2

Mae'r modiwl hwn yn cynnig cipolwg ar rai o brif symudiadau diwylliannol a digwyddiadau hanesyddol allweddol sydd wedi ffurfio'r Ffrainc gyfoes, o ddiwedd y ddeunawfed ganrif i'r presennol.

MLF101W a MLF102W

FFRANGEG I DDECHREUWYR I a II

40 CREDYD, SEMESTR 1 a 2

Mae'r modiwlau hyn ar gyfer myfyrwyr sydd wedi pasio arholiad Lefel A (neu gyfatebol) mewn iaith Ewropeaidd ond sydd heb astudio'r iaith Ffrangeg o'r blaen neu ond yn medru'iaith rhyw ychydig. Canolbwynt y modiwlau yw gramadeg a geirfa, yn ogystal a sgiliau cyfathrebu ar lafar ac yn ysgrifenedig yn y Ffrangeg.

MLF160AW a MLF160BW

IAITH FFRANGEG 1

40 CREDYD, SEMESTR 1 a 2

Modiwl iaith ar gyfer y rheini sydd eisoes wedi astudio'r Ffrangeg at safon lefel A, sy'n edrych ar amryw o agweddau o gymdeithas Ffrengig gyfoes er mwyn perffeithio sgiliau ieithyddol a chyflogadwyedd.

ML-104W

HANES A DIWYLLIANT EWROPEAIDD

20 CREDYD, SEMESTR 2

Dyma fodiwl sydd yn archwilio newidiadau allweddol a phellgyrhaeddol yn hanes, syniadaeth a diwylliant Ewrop o 1789 i'r cyfnod modern.

LEFEL 5

MLF210W

GWEITHDY CYFIEITHU FFRANGEG

10 CREDYD, SEMESTR 2

Mae'r modiwl hwn yn gyfle i fyfyrwyr ddatblygu eu sgiliau cyfieithu drwy weithio'n amlieithog rhwng y Ffrangeg, y Gymraeg a'r Saesneg. Bydd yn flas ar waith y cyfieithydd proffesiynol ac yn baratoad cadarn ar gyfer gweithle amlieithog y byd modern.

MLF211W

HANES YR IAITH FFRANGEG

20 CREDYD, SEMESTR 2

Mae'r iaith Ffrangeg wedi bod yn esblygu am fwy na dwy fil o flynyddoedd. Yn y modiwl hwn,

cymrwng ongl hanesyddol er mwyn ymchwilio i mewn i ddatblygiad yr iaith, a byddwn yn ffocysu ar ddigwyddiadau pwysig fel y goresgyniadau Rhufeinig a Germanaidd dros y wlad a adnabyddir heddiw fel Ffrainc.

MLF210W

GWEITHDY CYFIEITHU FFRANGEG

10 CREDYD, SEMESTR 2

Mae'r modiwl hwn yn gyfle i fyfyrwyr ddatblygu eu sgiliau cyfieithu drwy weithio'n amlieithog rhwng y Ffrangeg, y Gymraeg a'r Saesneg. Bydd yn flas ar waith y cyfieithydd proffesiynol ac yn baratoad cadarn ar gyfer gweithle amlieithog y byd modern.

MLF211W

HANES YR IAITH FFRANGEG

20 CREDYD, SEMESTR 2

Mae'r iaith Ffrangeg wedi bod yn esblygu am fwy na dwy fil o flynyddoedd. Yn y modiwl hwn, cymrwng ongl hanesyddol er mwyn ymchwilio i mewn i ddatblygiad yr iaith, a byddwn yn ffocysu ar ddigwyddiadau pwysig fel y goresgyniadau Rhufeinig a Germanaidd dros y wlad a adnabyddir heddiw fel Ffrainc.

MLF240W

RHYFEL ALGERIA 1954-1962

20 CREDYD, SEMESTR 1

Mae'r modiwl hwn yn dyfnhau dealltwriaeth o hanes modern Ffrainc trwy edrych ar ryfel annibyniaeth Algeria, ac yn cyflwyno perthnasedd digwyddiadau hanesyddol penodol i gymdeithas Ffrengig.

MLF260AW a MLF260BW

IAITH FFRANGEG 2

40 CREDYD, SEMESTR 1 a 2

Yn dilyn o MLF160BW, bwriad y modiwlau hyn yw edrych ar amryw agweddau ar y gymdeithas Ffrengig gyfoes er mwyn perffeithio sgiliau ieithyddol a chyflogadwyedd, a pharatoi myfyrwyr ar gyfer y flynyddyn dramor. Cynhelir y dosbarthiadau'n bennaf yn Ffrangeg, gan gyfuno sgiliau llafar, clywedol, darllen ac ysgrifennu.

MLF270AW a MLF270BW

IAITH FFRANGEG CANOLRADD 2

40 CREDYD, SEMESTR 1 a 2

Mae'r modiwlau hyn ar gyfer myfyrwyr sydd wedi dilyn cwrs Ffrangeg i ddechreuwy'r yn lefel 4. Bwriad y modiwl yw atgyfnerthu a datblygu'r ddealltwriaeth o'r iaith lafar ac ysgrifenedig a fagwyd yn y modiwlau i ddechreuwy'r. Cynhelir

y dosbarthiadau'n bennaf yn Ffrangeg, gan gyfuno sgiliau llafar, clywedol, darllen ac ysgrifennu.

LEFEL 6

MLF330AW a MLF330BW IAITH GYFFREDINOL FFRANGEG 3 20 CREDYD, SEMESTR 1 a 2

Mae'r modiwl hwn yn atgyfnerthu sgiliau a ddysgwyd yn y modylau Iaith Gyffredinol yn Lefel 4 a Lefel 5. Fe fydd myfyrwyr yn datblygu ac yn ymarfer eu sgiliau cyfieithu i'r Gymraeg a'r Ffrangeg, ysgrifennu yn Ffrangeg, a sgiliau llafar a chyfathrebu yn y Ffrangeg.

MLF300W FFRANGEG AT DDIBENION PROFFESIYNOL 3 10 CREDYD, SEMESTR 2

Yn y modiwl hwn, bydd myfyrwyr yn canolbwyntio ar Ffrangeg y byd modern, globaleiddio a pherthnasau rhyngwladol.

MLF310W GWEITHDY CYFIEITHU 3 10 CREDYD, SEMESTR 1

Cwrs sy'n parhau ar waith y gweithdy cyfieithu yn lefel 5 yw hwn. Bydd disgwyl i fyfyrwyr nid yn unig gwblhau cyfres o gyfieithiadau, ond i fyfyrio ar y broses gyfieithu ei hun. Bydd datblygu technegau a strategaethau cyfieithu yn allweddol i'r cwrs.

MLF325W FFRAINC A'R AIL RYFEL BYD: HANES YR OESOEDD TYWYLL 20 CREDYD, SEMESTR 2

Mae'r modiwl hwn yn ymdrin â'r cwestiwn canolog o sut mae profiadau Ffrainc yn ystod yr Ail Ryfel Byd wedi cael eu cynrychioli a'u cofio trwy amrywiaeth o ffurfiau, gan gynnwys nofelau, hunangofiannau, nofelau ditectif, ffilmiau, erthyglau papur newydd, ffotograffiaeth, cofebau a dadleuon am gofio.

ML-302W Y CHWYLDRO FFRENGIG 20 CREDYD, SEMESTR 1

Bydd y modiwl hwn yn archwilio'r rhesymau dros ffrwydrad y Chwyldro yn y lle cyntaf a sut y cafodd un o gymdeithasau mwyaf sefydledig Ewrop ei throi wyneb i waered.

ML-320W a ML-321W TRAETHAWD ESTYNNEDIG IEITHOEDD MODERN

40 CREDYD, SEMESTR 1 a 2

Bwriad y modiwl hwn yw galluogi i fyfyrwyr atgyfnerthu eu sgiliau ymchwil trwy ymchwilio un pwnc mewn dyfnder a chyflwyno eu casgliadau mewn ffurf traethawd hir. Modiwl amlddisgyblaethol ydyw sy'n cyflwyno hanes cymdeithasol a llenyddiaeth.

Am fwy o wybodaeth am unrhyw un o'r modiwlau uchod, gallwch e-bostio
Dr Sophie Smith: s.smith@abertawe.ac.uk

HANES

LEFEL 4

Bydd seminarau cyfrwng Cymraeg yn cael eu cynnal ar gyfer y modiwlau gorfodol lefel 4 cyfrwng Saesneg canlynol:

HIH121 EUROPE OF EXTREMES, 1789-1989 20 CREDYD, SEMESTR 1

Mae'r modiwl hwn yn archwilio'r prif themâu sy'n rhedeg trwy 200 mlynedd o hanes Ewrop. Gan ystyried dylanwad chwyldroadau, rhyfeloedd, imperialaeth a masnach, mae'n cynnig darlun i fyfyrwyr o sut mae cyflwr Ewrop heddiw wedi'i ddylanwadu a'i ffurfio gan ei gorffennol.

HIH122 MAKING HISTORY 20 CREDYD, SEMESTR 2

Mae'r modiwl craidd hwn yn cyflwyno i'r myfyrwyr natur disgyblaeth hanes a sut mae haneswyr academiaidd yn mynd ati i'w astudio. Mae'n archwilio sut mae haneswyr yn ymchwilio a dod at ddealltwriaeth o'r gorffennol, a sut mae'r cyhoedd yn derbyn a deall gwybodaeth hanesyddol. Yn ogystal mae cyfle i fyfyrwyr wella ar eu sgiliau hanesyddol, gan gynnwys ysgrifennu traethodau, gweithio mewn grŵp a chyflwyno eu dadleuon.

ML-104W

HANES A DIWYLLIANT EWROPEAIDD

20 CREDYD, SEMESTR 2

Dyma fodiwl sydd yn archwilio newidiadau allweddol a phellgyrhaeddol yn hanes, syniadaeth a diwylliant Ewrop o 1789 i'r cyfnod modern.

LEFEL 5

HIH272W

CREDOAU'R CYMRY: ASTUDIO ATHRONIAETH

AC ATHRAWIAETH GYMREIG O SAFBWWYNT

RHYNGWGLADOL

20 CREDYD, SEMESTR 1

Cyflwyniad i syniadau rhai o ffigyrau mwyaf adnabyddus yn hanes Cymru yw hanfod y modiwl hwn. Fe fydd myfyrwyr yn cael y cyfle i astudio unigolion megis Glyndwr, Robert Owen, Aneurin Bevan a Gwynfor Evans. Mae'n cynnig i fyfyrwyr ddealltwriaeth o rai o'u hegwyddorion a chysyniadau craidd. Dadansoddir yr athroniaethau mewn cyd-destun rhyngwladol, gan ystyried eu cysylltiadau gyda digwyddiadau a syniadau ehangach yr oes.

Cynnigir seminarau cyfrwng Cymraeg ar gyfer y modiwl cyfrwng Saesneg canlynol:

HIH237

THE PRACTICE OF HISTORY

20 CREDYD, SEMESTR 1

Mae'r modiwl hanfodol hwn yn cynnig sylfaen i fyfyrwyr ddatblygu eu dealltwriaeth o sut mae haneswyr blaengar yn gwthio ffiniau'r ddisgyblaeth, ac yn meithrin dealltwriaeth feirniadol o'r amryfal ffyrdd o ddehongli'r gorffennol. Yn y seminarau (a gynhelir yn y Gymraeg) bydd y myfyrwyr yn ymgymryd â phrosiect er mwyn astudio un math o ffynhonnell hanesyddol a dod i ddeall sut y gellir dehongli'r dystiolaeth mewn moddau gwahanol.

MLF240W

RHYFEL ALGERIA

20 CREDYD, SEMESTR 1

Bydd y modiwl hwn yn dyfnhau dealldwriaeth hanes modern Ffrainc ac i ddeall perthnasedd digwyddiadau hanesyddol penodol i gymdeithas Ffrengig. Fe fydd myfyrwyr yn asesu dogfenau hanesyddol gwahanol a'u defnyddio mewn moddgrwthrychol a beirniadol er mwyn asesu factorau pwusicaf rhyfel Algeria yn ddadansodol.

Yn ogystal, os oes galw, bydd seminarau Cymraeg ar gael ar gyfer dau fodiwl arall:

HIH253: Welsh Century, HIH255: First World War

LEFEL 6

HIH300W

CONCRO'R BYD: TWF A CHWYMP

YMERODRAETHAU PRYDAIN A FFRAINC

20 CREDYD, SEMESTR 1

Yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg fe ledaenodd ymerodraethau Prydain a Ffrainc (a gwledydd eraill Ewrop) nes bod y rhan fwyaf o wledydd y byd yn rhan o ymerodraeth Ewropeaidd. Bydd y modiwl hwn yn archwilio effeithiau oes yr ymerodraethau ar gymdeithas a diwylliant yn Ffrainc a Phrydain (ac yng Nghymru yn benodol). Byddwn yn ystyried sut y treiddiodd syniadau ymerodraethol trwy gydol diwylliant y gwledydd hyn, hyd at y cyfnod wedi'r Ail Ryfel Byd pan chwalwyd yr ymerodraethau

HIH303W

Y RHYFEL MAWR TRWY LYGAID Y CYMRY

20 CREDYD, SEMESTR 1

Bydd 'Y Rhyfel Mawr trwy lygaid y Cymry' yn cynnig arolwg eang o ddylanwad y Rhyfel Mawr ar bobl Cymru, ac ar ddiwylliant Cymreig a Chymraeg. Ni fydd yr astudiaeth yn cyfyngu ei hunan i ddigwyddiadau 1914-18, ond yn hytrach bydd yn trafod y cyfnod o 1880 i'r presennol.

HIH3300

TRAETHAWD HIR

40 CREDYD, SEMESTR 1 a 2

Disgwylir i fyfyrwyr hanes ysgrifennu darngwreiddiol o waith ymchwil ar bwnc o'u dewis nhw. Byddant yn paratoi astudiaeth gychwynnol o'u testun, ac yna cânt nifer o gyfarfodydd â'r tiwtor i'w tywys drwy eu hymchwil ac i'w cynorthwyo i ddadansoddi'r dystiolaeth. Prif ddiben y prosiect yw ysgrifennu traethawd hir (10,000 o eiriau), ac yn ogystal bydd disgwyl i'r myfyrwyr baratoi cyflwyniad llafar 20 munud ar eu testun.

Am fwy o wybodaeth am unrhyw un o'r modiwlau uchod, gallwch e-bostio Dr Gethin Matthews: g.h.matthews@abertawe.ac.uk

SBAENEG

LEFEL 4

MLS100AW a MLS100BW CYFLWYNIAD I DDIWYLLIANNAU SBAENEG A/B 20 CREDYD, SEMESTR 1 a 2

Bwriad y modiwlau hyn yw cyflwyno prif ddatblygiadau hanes, gwleidyddiaeth a diwylliant Sbaen ac America Ladin yn yr 20fed ganrif trwy ddadansoddi enghreifftiau arwyddocaol o lenyddiaeth a ffilm.

MLS130W a MLS131W SBAENEG I DDECHREUWYR I a II 40 CREDYD, SEMESTR 1 a 2

Mae'r modiwlau hyn ar gyfer myfyrwyr sydd wedi pasio arholiad Lefel A (neu gyfatebol) mewn iaith Ewropeaidd ond sydd heb astudio'r iaith Sbaeneg o'r blaen neu ond yn medru'r iaith rhyw ychydig. Canolbwynt y modiwlau yw gramadeg a geirfa, yn ogystal â sgiliau cyfathrebu ar lafar ac yn ysgrifenedig yn y Sbaeneg.

MLS160AW a MLS160BW IAITH SBAENEG 1 40 CREDYD, SEMESTR 1 a 2

Modiwl iaith ar gyfer y rheini sydd eisoes wedi astudio'r Sbaeneg at safon lefel A, sy'n edrych ar amryw o agweddau o gymdeithas Sbaeneg gyfoes er mwyn perffeithio sgiliau ieithyddol a chyflogadwyedd.

ML-104W HANES A DIWYLLIANT EWROPEAIDD 20 CREDYD, SEMESTR 2

Dyma fodiwl sydd yn archwilio newidiadau allweddol a phellgyrhaeddol yn hanes, syniadaeth a diwylliant Ewrop o 1789 i'r cyfnod modern.

LEFEL 5

MLS20AW a MLS20BW IAITH GYFFREDINOL SBAENEG 2 40 CREDYD, SEMESTR 1 a 2

Yn dilyn o MLS160BW, bwriad y modiwlau hyn yw edrych ar amryw agweddau ar y gymdeithas Sbaeneg gyfoes er mwyn perffeithio sgiliau ieithyddol a chyflogadwyedd, a pharatoi myfyrwyr ar gyfer y flwyddyn dramor. Cynhelir y dosbarthiadau'n bennaf yn Sbaeneg, gan gyfuno sgiliau llafar, clywedol, darllen ac ysgrifennu.

MLS270AW a MLS270BW IAITH SBAENEG CANOLRADD 2 40 CREDYD, SEMESTR 1 a 2

Mae'r modiwlau hyn ar gyfer myfyrwyr sydd wedi dilyn cwrs Sbaeneg i ddechreuwy'r yn lefel 4. Bwriad y modiwl yw atgyfnerthu a datblygu'r ddealltwriaeth o'r iaith lafar ac ysgrifenedig a fagwyd yn y modiwlau i ddechreuwy'r. Cynhelir y dosbarthiadau'n bennaf yn Sbaeneg, gan gyfuno sgiliau llafar, clywedol, darllen ac ysgrifennu.

MLS208W BARCELONA / BUENOS AIRES 20 CREDYD, SEMESTR 1

Bwriad y modiwl hwn yw cynnig dealltwriaeth o ddiwyllianau allweddol yn Sbaen ac America Ladin trwy edrych ar ddatblygiad Barcelona a Buenos Aires.

LEFEL 6

MLS300AW a MLS300BW IAITH GYFFREDINOL SBAENEG 3 20 CREDYD, SEMESTR 1 a 2

Bwriad y modiwlau hyn yw atgyfnerthu ac ymestyn sgiliau iaith y myfyrwyr ym mhob maes (sgiliau llafar, clywedol, darllen ac ysgrifennu), gan anelu at safon uchel o hyfedredd llafar ac ysgrifenedig yn Sbaeneg.

MLS307W HUNANIAETHAU SBAENEG EU HIAITH 20 CREDYD, SEMESTR 1

Bwriad y modiwl hwn yw cynnig dealltwriaeth o brif themâu yn ymwneud â hunaniaethau Sbaeneg eu hiaith trwy edrych ar ddynameg y Sbaen fodern a hunaniaeth genedlaethol a mynegiannau rhywedd a thrais yn America Ladin.

ML-305W PATAGONIA GYFOES 20 CREDYD, SEMESTR 2

Bwriad y modiwl hwn yw cyflwyno prif elfennau cymdeithas a diwylliant Patagonia gyfoes trwy ddeunyddiau llenyddiaeth, ffilm a chyfryngau amrywiol. Edrychir ar gerrig milltir hanes yr ardal mewn perthynas â'r Ariannin ac America Ladin yn gyffredinol er mwyn meithrin dealltwriaeth o ddatblygiad Patagonia hyd at y presennol.

ML-320W a ML-321W
TRAETHAWD HIR IEITHOEDD MODERN
40 CREDYD, SEMESTR 1 a 2

Bwriad y modiwl hwn yw galluogi myfyrwyr i atgyfnerthu eu sgiliau ymchwil trwy ymchwilio pwnc mewn dyfnder a chyflwyno eu casgliadau ar ffurf traethawd hir.

Am fwy o wybodaeth am unrhyw un o'r modiwlau uchod, gallwch e-bostio Dr Geraldine Lublin: g.lublin@abertawe.ac.uk

Y COLEG PEIRIANNEG

PEIRIANNEG

LEFEL 4

EG-189
DADANSODDIAD PEIRIANNEG 1
10 CREDYD, SEMESTR 1

Mae'r modiwl (mewn cyfuniad a EG-190) yn rhoi'r wybodaeth fathemategol a dadansoddi angenrheidiol i fyfyrwyr peirianneg. Mae'r modiwl yn sicrhau fod gan bob myfyrwr y sgiliau analytig i bob modiwl sy'n dilyn.

EG-190
DADANSODDIAD PEIRIANNEG 2
10 CREDYD, SEMESTR 2

Mae'r modiwl yn ychwanegu i ddealltwriaeth o dechnegau dadansoddi mathemategol a roddwyd yn EG-189. Mae'r modiwl yn ymestyn dealltwriaeth o ddulliau analytig cymhleth trwy astudiaeth o rifau cymhlyg, ffwythiannau aml-amrywiol, cyfresau a hafaliadau differol.

LEFEL 6

EG-353
PROSIECT PERSONOL
30 CREDYD, SEMESTER 1 a 2

Mae'r modiwl yn gofyn i'r unigolyn ymateb i broblem ymarferol trwy astudiaeth ddwys o egwyddorion gwyddonol a peirianyddol. Mae disgwyl i'r unigolyn gweithio yn annibynnol ar y broblem a roddwyd a rheoli'r prosiect i amserlen a chynlluniwyd mewn partneriaeth gyda'i diwtor. I lwyddo bydd angen hunan rheolaeth, hunan drefn, y gallu i ddadansoddi ac asesu data ynghyd a'r parodrwydd i ddysgu gwybodaeth dechnegol

berthnasol. Roddir hefyd opsiynau i gymryd y modiwl yn rhannol trwy gyfrwng y Gymraeg.

Am fwy o wybodaeth am y ddarpariaeth hon, gallwch e-bostio Dr. Eifion Jewell e.jewell@abertawe.ac.uk

GWYDDOR CHWARAEON

Cynigir eisoes gefnogaeth tiwtorialau trwy gyfrwng y Gymraeg yn y pwnc.

Am fwy o wybodaeth am y ddarpariaeth hon, gallwch e-bostio: Dr Iwan Griffiths: i.w.griffiths@abertawe.ac.uk

NYRSIO

LEFEL 4

SHG113 / SHG113W
GWETHIO TRWY'R GYMRAEG YN YR
ADRAN IECHYD/
10 CREDYD, SEMESTR 2

Bydd y modiwlau hyn yn magu hyder myfyrwyr i ddefnyddio'r Gymraeg yn naturiol ym maes gofal iechyd. Bydd y modiwlau yn gwella cyfathrebu a dealltwriaeth yn yr adran clinigol a rheolaeth gofal y cleifion er mwyn cynnig gofal gwell i gleifion neu gleientiaid sy'n siarad Cymraeg. Mae'r modiwlau hyn ar gyfer myfyrwyr sy'n rhugl yn y Gymraeg.

SHG016 / SHG016W
GWETHIO TRWY'R GYMRAEG YN YR
ADRAN IECHYD
10 CREDYD, SEMESTR 2

Bydd y modiwlau hyn yn helpu siaradwyr Cymraeg a dysgwyr yr iaith i fagu hyder, ac i fod yn fwy parod i ddefnyddio'r Gymraeg ym maes gofal iechyd. Bydd y modiwlau yn gwella cyfathrebu ac felly yn cynnig gofal gwell i gleifion neu gleientiaid sy'n siarad Cymraeg.

SHN125
CYFLWYNIAD I HANFODION YMARFER NYRSIO
(MAES OEDOLION)
10 CREDYD, SEMESTR 1

Mae'r modiwl craidd hwn yn mynd i'r afael â meysydd allweddol penodol sy'n ymwneud ag hanfodion ymarfer nyrsio a datguddio clinigol. Bydd y modiwl yn cyflwyno myfyrwyr i'r alwedigaeth nyrsio, gwerthoedd sylfaenol yr alwedigaeth nyrsio a chodau ymarfer proffesiynol yr alwedigaeth. Plethir pwysigrwydd urddas, parch, gofal a thrugaredd i gleifion trwy'r modiwl ac fe'u cysylltir â gofal diogel sy'n canolbwyntio ar unigolion. Bydd y modiwl yn cyflwyno myfyrwyr i fodloni anghenion corfforol ac emosiynol y cleient/defnyddiwr gwasanaeth.

SHN126
DYSGU I DDYSGU MEWN ADDYSG UWCH AC
YMARFER CLINIGOL
(MEYSYDD OEDOLION, PLANT AC IECHYD MEDDWL)

10 CREDYD, SEMESTR 1

Bwriad y modiwl craidd hwn yw paratoi myfyrwyr i astudio'n effeithiol mewn addysg uwch ac mewn lleoliad clinigol. Bydd cwblhau'r modiwl yn galluogi myfyrwyr i gymryd rhan effeithiol mewn meithrin gwybodaeth trwy amrywiaeth o strategaethau dysgu gan eu galluogi i wneud cynnydd tuag at ddod yn ddysgwyr annibynnol mewn lleoliadau academaidd a chlinigol.

SHN129W/SHN136W/SHN137W
CYFLWYNIAD I YMARFER PROFFESIYNOL
(MEYSYDD OEDOLION, PLANT AC IECHYD MEDDWL)

60 CREDYD, SEMESTR 1 a 2

Athroniaeth y modiwl craidd hwn yw'r gred fod datblygiad parhaus yn sail i ymarfer proffesiynol. Drwy gydol eu bywydau proffesiynol, mae angen i nyrsys cymwys gymryd cyfrifoldeb am eu haddysg a'u datblygiad personol. Er mwyn cyflawni hyn, mae angen iddynt allu adnabod eu hanghenion dysgu a datblygiadol, gan ddatblygu strategaethau priodol i'w cyflawni.

LEFEL 5

SHN274W/SHN285/SHN286
DATBLYGU YMARFER NYRSIO
(MEYSYDD OEDOLION, PLANT AC IECHYD MEDDWL)
60 CREDYD, SEMESTR 1 a 2

Athroniaeth y modiwl craidd hwn yw'r gred bod datblygiad parhaus yn sail i ymarfer proffesiynol. Drwy gydol eu bywydau proffesiynol, mae angen i nyrsys cymwys fod yn gyfrifol am eu dysgu a'u datblygiad eu hunain. Er mwyn cyflawni hyn, mae angen iddynt allu adnabod eu hanghenion dysgu a datblygu, a llunio strategaethau priodol i'w diwallu.

LEFEL 6

SHN3017W
YMARFER NYRSIO ARBENIGIOL
40 CREDYD, SEMESTR 1

Mae'r modiwl hwn, ymarfer nyrsio arbenigol oedolion, yn bennaf yn canolbwyntio ar y claf sy'n ddifrifol wael mewn lleoliadau gwahanol, ee uned gofal dwys, theatr, y gymuned, damweiniau ac achosion brys. Pynciau a gwmpesir yw cysyniadau nyrsio ac arfer proffesiynol, materion cyfreithiol a moesegol, sgiliau gofalgar a chyfathrebu, ffisiogol cymhwysol, seico-gymdeithasol, ymchwil, iechyd a pholis.

SHN3018W

**CYFUNO NYRSIO OEDOLION
40 CREDYD, SEMESTER 2**

Mae'r modiwl hwn wedi'i gynllunio i ddarparu i'r myfyriwr dealltwriaeth o faterion sy'n ymwneud ag arfer y tu hwnt i hynny o safbwynt y gangen benodol. Mae'r modiwl hwn yn anelu i ddatblygu dealltwriaeth y myfyriwr o'i rôl reoli fel nyrs gymwysedig yn cynnwys ei ddealltwriaeth o'r rôl hon mewn perthynas ag atebolrwydd, goblygiadau polisi cymdeithasol ar gyfer ymarfer, ac ei rôl fel addysgwr ar gyfer datblygu ei hun ac eraill.

SHN3019W

**YMARFER NYRSIO OEDOLION
40 CREDYD, SEMESTER 1 a 2**

Mae hwn yn fodiwl bedair wythnos ar ddeg, 12 wythnos o'r rhain yn cael eu gwario yn ymarfer dan oruchwyliaeth clinigol fel y nodir gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Byddwch yn cael eich mentora gan Nyrsys Cofrestredig sydd wedi eu paratoi yn benodol.

SHN3022W

**YR YMARFER O NYRSIO PLANT
40 CREDYD, SEMESTER 2**

Mae hwn yn fodiwl pedair wythnos ar ddeg, 12 wythnos o'r rhain yn cael eu gwario yn ymarfer dan oruchwyliaeth clinigol fel y nodir gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Byddwch yn cael eich mentora gan Nyrsys Cofrestredig sydd wedi cael eu paratoi yn benodol.

Am fwy o wybodaeth am unrhyw un o'r modiwlau uchod, gallwch e-bostio Amanda Jones: a.j.jones@abertawe.ac.uk

BYDWREIGIAETH

LEFEL 4

SHN124W

**SGILIAU ASTUDIO AR GYFER BYDWREIGIAETH
10 CREDYD, SEMESTR 1 a 2**

Bydd y modiwl hwn yn cyflwyno'r fyfyrwraig/myfyriwr i sgiliau adlewyrchu a chonfensiynau o ysgrifennu traethodau ar lefel israddedig.

SHM125W

**SYLFEINI AR GYFER BYDWREIGIAETH YMARFEROL
40 CREDYD, SEMESTR 1 a 2**

Bydd y modiwl hwn yn cyflwyno'r fyfyrwraig/myfyriwr i sgiliau bydwreigiaeth ymarferol, a bydd yn cael ei gynnal ar leoliad gyda'r mentoriaid o fewn gosodiadau bydwreigiaeth.

LEFEL 5

SHM245W

**DATBLYGU BYDWREIGIAETH YMARFEROL
40 CREDYD, SEMESTR 1 a 2**

Bydd y modiwl hwn yn parhau i ddatblygu sgiliau ymarferol bydwreigiaeth y fyfyrwraig/myfyriwr, a bydd yn cael ei gynnal ar leoliad gyda'r mentoriaid o fewn gosodiadau bydwreigiaeth.

LEFEL 6

SHM329W

**BYDWREIGIAETH YMARFEROL EFFEITHIOL
40 CREDYD, SEMESTR 1 a 2**

Bydd y modiwl hwn yn parhau i ddatblygu sgiliau ymarferol bydwreigiaeth y fyfyrwraig/myfyriwr, a bydd yn cael ei gynnal ar leoliad gyda'r mentoriaid o fewn gosodiadau bydwreigiaeth.

Am fwy o wybodaeth am unrhyw un o'r modiwlau uchod, gallwch e-bostio Rachel Williams: r.a.williams@abertawe.ac.uk

GWAITH CYMDEITHASOL

LEFEL 4

SQ101

**CYFLWYNIAD I WAITH CYMDEITHASOL
20 CREDYD, SEMESTR 1**

Mae'r modiwl hwn yn ystyried lle gwaith cymdeithasol cyfoes o fewn cyd-destunau hanesyddol a chymharol. Rhoddir sylw penodol i'r cyd-destun Cymreig a'r cydberthynasau sydd rhwng gwasanaethau cymdeithasol a darparwyd gofal neu iechyd eraill yn y sectorau statudol a gwirfoddol.

ASQ105

**CYFLWYNIAD I GYFRAITH GWAITH CYMDEITHASOL
10 CREDYD, SEMESTR 2**

Ar lefel gyflwyniadol, mae'r modiwl hwn yn darparu trosolwg o'r prosesau cyfreithiol a'r fframweithiau

sydd yn llywio ac yn hysbysbu gwaith gweithwyr cymdeithasol yn y Deyrnas Unedig, ac yn fwy penodol, yng Nghymru.

ASQ107
GWAITH CYMDEITHASOL AR LEOLIAD GWAITH
10 CREDYD, SEMESTR 2

Ar lefel gyflwyniadol, bydd y modiwl hwn yn cyflwyno'r sgiliau craidd sydd ei angen er mwyn gweithio mewn cyd-destun ymarferol ym maes gwaith cymdeithasol heddiw. Rhoddir sylw penodol i sgiliau cyfathrebu, sgiliau rhyngbersonol a chyflwynir amrywiol ddulliau a modelau o asesu o fewn cyd-destunau ymarfer amrywiol, diogelwch personol mewn gwaith cymdeithasol a phwysigrwydd adfyfrio'n feirniadol wrth ymarfer.

LEFEL 5

ASQ205
GWAITH CYMDEITHASOL AR LEOLIAD GWAITH –
RHAN 1
20 CREDYD, SEMESTR 2

Bydd y modiwl hwn yn adeiladu ar y sgiliau a gyflwynwyd yn Lefel 4 tra byddwch ar leoliad gwaith. Rhoddir sylw penodol i'r cyd-destun Cymraeg a Chymreig.

ASQ206
GWAITH CYMDEITHASOL AR LEOLIAD GWAITH –
RHAN 2
40 CREDYD, SEMESTR 2

Bydd y modiwl hwn yn adeiladu ar y sgiliau a gyflwynwyd yn Lefel 4 ac yn ystod y semester cyntaf, a bydd y myfyrwyr ar leoliad gwaith. Rhoddir sylw penodol i'r cyd-destun Cymraeg a Chymreig.

LEFEL 6

ASQ305
GWAITH CYMDEITHASOL AR LEOLIAD GWAITH –
RHAN 1
20 CREDYD, SEMESTR 2

Yn eich blwyddyn olaf o astudio, bydd y modiwl hwn yn adeiladu ar y sgiliau a gyflwynwyd i chi dros y ddwy flynedd ddiwethaf tra byddwch ar leoliad gwaith. Rhoddir sylw penodol i'r cyd-destun Cymraeg a Chymreig.

ASQ306
GWAITH CYMDEITHASOL AR LEOLIAD GWAITH
– RHAN 2
40 CREDYD, SEMESTR 2

Y mae'r modiwl hwn yn barhad o'r hyn a gyflwynwyd yn y semester cyntaf. Yn eich blwyddyn olaf o astudio, bydd y modiwl hwn yn adeiladu ar y sgiliau a gyflwynwyd i chi dros y ddwy flynedd ddiwethaf tra byddwch ar leoliad gwaith. Rhoddir sylw penodol i'r cyd-destun Cymraeg a Chymreig.

Am fwy o wybodaeth am y modiwlau uchod, gallwch e-bostio Miriam Leigh m.e.leigh@abertawe.ac.uk

Y COLEG MEDDYGAETH

MEDDYGAETH, BIOCEMEG A GENETEG

LEFEL 4

PM-120C
DADANSODDIAD GENETEG 1
10 CREDYD, SEMESTR 1 a 2

Bydd y modiwl yma yn gosod aseiniadau wedi eu cynllunio i ddatblygu sgiliau myfyrwyr geneteg a geneteg feddygol. Bydd myfyrwyr yn cwrrd gyda'u tiwtoriaid ac yn derbyn cyfres o aseiniadau wedi eu cynllunio i ddatblygu sgiliau mewn meysydd allweddol megis ysgrifennu traethodau a chyflwyniadau llafar. Bydd cyfle hefyd i edych ar egwyddorion ac ymarferoldeb chwilio ar y rhyngwyrdd am ffynonellau gwyddonol. Bydd sesiynau ar y cyd yn manylu ar sgiliau cyffredinol megis defnyddio'r rhyngwyrdd i chwilio am ffynonellau gwyddonol, cyfeirnod a llên-ladrad.

PM-130C
DATBLYGIAD SGILIAU BIOCEMEG 1
10 CREDYD, SEMESTR 1 a 2

Mae'r modiwl yma wedi ei gynllunio i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen ar fyfyrwyr biocegeg a biocegeg feddygol. Bydd myfyrwyr yn cyfarfod gyda'u tiwtoriaid, ac yn cael cyfres o aseiniadau wedi eu cynllunio i ddatblygu sgiliau mewn meysydd allweddol megis ysgrifennu traethodau, cyflwyno, datblygiad gyrfa a rhifedd cyffredinol. Bydd sesiynau ar y cyd yn cynnwys sgiliau cyffredinol megis defnyddio'r rhyngwyrdd i chwilio am ffynonellau gwyddonol, cyfeirnod a llên-ladrad.

PM-133C

Geneteg Esblygiad a Moleciwlaidd 20 credyd, Semestr 1

Mae'r modiwl yn dechrau trwy ystyried agweddau ar geneteg a phynciau cysylltiedig, ee. mitosis a meiosis, trwasblygiad, genomau, ailgyfuno, trawsgrifio, cyfieithu, strwythur protein a phrotein eiddo. Mae ail ran y modiwl yn ymdrin â biologie esblygiadol, detholiad naturiol ac amrywiad, esblygiad moleciwlaidd a rhywogaethau a'u.

LEFEL 5

PM-200C

Dadansoddiad Geneteg II 10 Credyd, Semestr 2

Gosodir aseiniadau ar y modiwl hwn i adeiladu ar y sgiliau ysgrifennu traethawd a chyflwyno llafar a gyflwynwyd yn lefel 1. Hefyd, datblygir sgiliau gwerthuso beirniadol a dadansoddi at ddibenion deall papurau ymchwil a adolygir gan gymheiriaid.

PM-253C

Technegau Bioleg Foleciwlaidd 30 credyd, semestr 1

Bydd y modiwl yn darparu sail ddamcaniaethol ac ymarferol cadarn i ystod gynhwysfawr o dechnegau biomoleciwlaidd a gyflogir ar hyn o bryd mewn geneteg foleciwlaidd a biocemeg. Rhoddir pwyslais arbennig ar DNA ailgyfunol dechnoleg, dilyniannu genhedlaeth nesaf, proteomeg a sbectrometreg mäs.

PMW241F

MEDDYG FEL GWEITHIWR PROFFESIYNOL 1 50 CREDYD, SEMESTR 1 a 2

Mae'r modiwl hwn yn darparu myfyrwyr meddygol gyda chyflwyniad i broffesiynoldeb – dull sy'n hanfodol ar gyfer arfer meddygol da. Gan ganolbwyntio ar egwyddor y Meddyg fel Gweithiwr Proffesiynol (Meddygon Yfory, GMC 2009), ac yn benodol, gwerthoedd proffesiynol, addasrwydd i ymarfer, rheoleiddio proffesiynol, camgymeriadau meddygol a myfyrion ar/tra'n ymarfer, mae'r modiwl hwn yn galluogi myfyrwyr i ddatblygu ac amlygu eu proffesiynoldeb o fewn cyd-destun academaidd a chlinigol.

LEFEL 6

PMW351D

MEDDYG FEL GWEITHIWR PROFFESIYNOL 2 50 CREDYD, SEMESTR 1 a 2

Mae'r modiwl hwn yn darparu cyfleoedd

pellach i fyfyrwyr meddygaeth i ystyried eu proffesiynoldeb – sy'n hanfodol ar gyfer arfer meddygol da. Gan ganolbwyntio ar egwyddor y Meddyg fel Gweithiwr Proffesiynol (Meddygon Yfory, GMC 2009), ac yn benodol, gwerthoedd proffesiynol gweithio mewn tîm, ffiniau proffesiynol, meddygon fel athrawon a myfyrion ar/tra'n ymarfer; mae'r modiwl hwn yn galluogi myfyrwyr i ddatblygu ac amlygu eu proffesiynoldeb o fewn cyd-destun academaidd a chlinigol.

PMW360I

MEDDYG FEL GWEITHIWR PROFFESIYNOL 3 50 CREDYD, SEMESTR 1 a 2

Mae'r modiwl hwn yn darparu cyfleoedd pellach i fyfyrwyr meddygaeth i ystyried eu proffesiynoldeb – sy'n hanfodol ar gyfer arfer meddygol da. Gan ganolbwyntio ar egwyddor y Meddyg fel Gweithiwr Proffesiynol (Meddygon Yfory, GMC 2009), ac yn benodol; gwerthoedd proffesiynol, cymodi etheg gyda'r gyfraith a chredoau moesegol, cyfrifoldeb meddyg igymryd rhan mewn rheoli systemau iechyd gan gynnwys arweinyddiaeth a hybu hunan-ymwybyddiaeth gan ystyried sut all iechyd personol ddylanwadu ar ofal y cleifion. Mae'r modiwl hwn yn galluogi myfyrwyr i ddatblygu ac amlygu eu proffesiynoldeb o fewn cyd-destun academaidd a chlinigol.

PMW369C

MEDDYG FEL GWEITHIWR PROFFESIYNOL 4 50 CREDYD, SEMESTR 1 a 2

Mae'r modiwl hwn yn darparu cyfleoedd pellach i fyfyrwyr meddygaeth i ystyried eu proffesiynoldeb – sy'n hanfodol ar gyfer arfer meddygol da. Gan ganolbwyntio ar egwyddor y Meddyg fel Gweithiwr Proffesiynol (Meddygon Yfory, GMC 2009), ac yn benodol gwerthoedd proffesiynol a geir wrth ymarfer mewn sefyllfaoedd ansicr, gwella ansawdd gofal, cleifion fel partneriaid a pharatoi ar gyfer ymarfer. Mae'r modiwl hwn yn galluogi myfyrwyr i ddatblygu ac amlygu eu proffesiynoldeb wrth iddynt ddechrau ar eu gyrfa fel meddyg.

PM-304C

Prosiect Ymchwil Biofoleciwlaidd 30 credyd, semestr 1 a 2

* Mae'r modiwl hwn yn cael ei ddatblygu a bydd y wybodaeth yn ymddangos yn fuan.

PM-334C

Adolygiad Llenyddiaeth

20 credyd, semestr 1

Bydd myfyrwyr yn cael gwybodaeth fanwl o un maes ymchwil cyfoes o bwys allweddol i'w cynllun gradd penodol.

Yn ychwanegol, gellir darparu tiwtor sy'n medru'r Gymraeg pe dymunir, a gall rhai aseiniadau gael eu cwblhau yn y Gymraeg.

Am fwy o wybodaeth am y ddarpariaeth hon, gallwch e-bostio Dr Heledd Iago h.f.iago@abertawe.ac.uk neu Dr Alwena Morgan a.h.morgan@abertawe.ac.uk

COLEG Y GYFRAITH

Y GYFRAITH

LEFEL 4

LA107W

CONTRACT

30 CREDYD, SEMESTR 1 a 2

Mae cyfraith contract yn ganolog i ddealltwriaeth o'r gyfraith fel offeryn sy'n creu rhwymedigaethau ac sydd yn galluogi perthnasau cyfreithiol i fodoli. Mae hefyd yn gosod y sylfaen ar gyfer pynciau eraill megis cyfraith fasnachol, cyfraith fusnes a masnachu rhyngwladol.

LA106W

CAMWEDDAU

30 CREDYD, SEMESTR 1 a 2

Mae'r modiwl hwn yn trafod cyfraith camweddau o safbwynt elfennau sylfaenol a chyda dealltwriaeth o ddatblygiad hanesyddol a dylanwad ffactorau gwleidyddol, cymdeithasol ac economaidd. Bydd yn egluro egwyddorion ac athrawiaethau'r pwnc and yn ystyried y remediau perthnasol.

LEFEL 5

LA213W

TROSEDD

30 CREDYD, SEMESTR 1 a 2

Mae'r modiwl hwn yn trafod elfennau sylfaenol troseddau ac yn edrych ar droseddau penodol, gan gynnwys llofruddiaeth, ymosod, troseddau rhyw a throseddau eiddo. Bydd

hefyd yn ystyried amddiffyniadau cyfreithiol perthnasol. Bydd cyfle ar y modiwl hwn i ystyried cysyniadau cyfreithiol a'u perthnasedd i weithrediaethy gyfraith mewn sefyllfaoedd ymarferol.

LA203W

ECWITI AC YMDDIRIEDOLAETHAU

30 CREDYD, SEMESTR 1 a 2

Mae'r modiwl hwn yn ystyried natur a datblygiad ecwiti and yn esbonio egwyddorion craidd ac athrawiaethau ecwiti. Mae'r modiwl yn canolbwyntio ar yr ymddiriedolaeth gyfreithiol, sef creadigaeth mwyaf arwyddocaol ecwiti. Bydd myfyrwyr yn cael dealltwriaeth o'r gwahanol gyddestunau y cyfyd ymddiriedolaethau a'r egwyddorion cyfreithiol sydd yn sail iddynt.

LA391W

CYMRU'R GYFRAITH

20 CREDYD, SEMESTR 2

Mae'r modiwl hwn yn dadansoddi y syniad o Gymru fel endid cyfreithiol neilltuol yn y cyfnod ôl-ddatganoledig. Mae ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg yn unig a bydd yn cael ei gyflwyno ar sail traws-sefydliadol, cydweithredol, ynunol ac ymrwymiad y brifysgol i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

LA314W

TRAETHAWD ESTYNEDIG

20 CREDYD, SEMESTR 1 a 2

Mae'r modiwl hwn yn cynnig cyfle i fyfyrwyr y Gyfraith i weithio ar brosiect o'u dewis gan dderbyn arolygaeth trwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd yn profi eu gallu i weithio'n annibynnol a bydd yn eu paratoi ar gyfer ymchwil pellach ar ôl graddio.

Am fwy o wybodaeth am unrhyw un o'r modiwlau uchod, gallwch e-bostio'r Athro Gwynedd Parry: r.g.parry@abertawe.ac.uk

BIOWYDDORAU

Darperir yr opsiwn i gael goruchwyliaeth prosiect ymchwil Lefel 6 yn Gymraeg hefyd. Yn ogystal â hyn, cynigiwn y modiwlau canlynol trwy gyfrwng y Gymraeg:

LEFEL 4

BIO105C AMRYWIAETH A FFISIOLEG ANIFEILIAID 20 CREDYD, SEMESTR 2

Mae'r modiwl hwn yn galluogi myfyrwyr i ddeall y rhyng-berthynas rhwng anifeiliaid trwy esblygiad, dosbarthu'r prif grwpiau o anifeiliaid a disgrifio swyddogaeth a ffurf corff y prif grwpiau hyn.

BIO106C ECOLEG AC YMDDYGIAD 20 CREDYD, SEMESTR 2

Erbyn diwedd y modiwl, bydd myfyrwyr wedi ennill dealltwriaeth o'r gyrwyr cynradd mewn ecoleg, y llif o ynni trwy organebau, dynameg poblogaethau o organebau, rhyngweithiadau ysglyfaethwr-ysglyfaeth a gwe-fwydydd. Mi fydd y myfyrwyr hefyd yn ennill gwerthfawrogiad o sut mae anifeiliaid yn ymateb i'w hamgylchedd, yn ymateb i'w gilydd a'u rhyngweithio gydag ecoleg.

LEFEL 5

BIO225C ADOLYGIAD LLENYDDIAETH 10 CREDYD, SEMESTR 2

Mae'r modiwl hwn wedi'i gynllunio i ddatblygu sgiliau llythrennedd craidd myfyrwyr israddedig Lefel 2 y Biowyddorau. Mae'n cynnwys cynhyrchu poster ac adolygiad manwl a beirniadol o'r llenyddiaeth ddiweddar ar bwnc sy'n berthnasol i bwnc gradd y myfyriwr (swoleg, bioleg, bioleg y mor). Rhaid i'r adolygiad fod yn 3000 o eiriau o hyd

BIO229C FERTEBRATAU DAEAROL 15 CREDYD, SEMESTR 2

Mae'r modiwl yma yn dilyn ymlaen o'r cyflwyniad i fertebratau a ddarparwyd yn y modilw Lefel 4 Amrywiaeth a Ffisioleg Anifeiliaid, gan fanylu

am ffurf a swyddogaeth mewn fertebratau sy'n treulio cyfan neu ran o'u cylch bywyd ar y tir. Bydd agweddau morffolegol a ffisiolegol fertebratau yn cael eu hystyried o ran addasu a chyfyngiad esblygol.

Am fwy o wybodaeth am unrhyw un o'r modiwlau uchod, gallwch e-bostio: Dr Gethin Thomas: g.r.thomas@abertawe.ac.uk

DAEARYDDIAETH

LEFEL 4

GEC100 SGILIAU DAEARYDDOL 20 CREDYD, SEMESTR 1

Bwriad y modiwl hwn yw cyflwyno myfyrwyr i sgiliau daearyddol craidd. Bydd y sgiliau gwerthfawr yma yn cael eu meithrin trwy gydol eu gradd ym Mhrifysgol Abertawe. Dylai myfyrwyr sy'n dilyn y modiwl allu defnyddio'r technegau hyn i ddehongli a dadansoddi data o amrywiol amgylcheddau a chyd-destunau. Trafodir sgiliau cyflwyno megis defnyddio tablau a chreu mapiau.

GEC106 CYNALADWYEDD MEWN BYD BREGUS 10 CREDYD, SEMESTR 2

Archwiliwch effaith y syniad o gynladwyedd ar fywydau bob dydd pobl mewn amgylcheddau trefol a gwledig. Byddwch yn ystyried ystod o ardaloedd yn y byd sy'n amgylcheddol fregus ac yn cyferbynnu'r heriau sy'n wynebu'r byd sy'n datblygu a'r byd cyfoethog.

GEC109 METHODOLEG MAES 10 CREDYD, SEMESTR 2

Mae'r modiwl hwn yn cyflwyno egwyddorion a dulliau allweddol a ddefnyddir mewn gwaith maes o fewn Daearyddiaeth ac yn cynnig profiad o ddefnyddio'r dulliau yma a thechnegau gwaith maes er mwyn casglu adadansoddi gwybodaeth. Dysgir y modiwl yn ystod penwythnos preswyl ar y cyd â staff o Brifysgolion Bangor ac Aberystwyth a dysgir y myfyrwyr o'r sefydliadau hyn hefyd ar y modiwl.

GEC110

AMGYLCHEDD CYMRU

10 CREDYD, SEMESTR 2

Mae'r modiwl hwn yn cyflwyno agweddau amrywiol o amgylchedd Cymru ac yn pwysleisio'r rhyngweithiadau sydd yn bodoli rhwng y byd dynol a ffisegol. Dysgir y modiwl gan ddefnyddio darlithoedd a recordiwyd yn ddigidol y bydd myfyrwyr yn eu clywed yn eu hamser eu hunain. Yn ogystal bydd myfyrwyr yn mynychu seminarau cynhaliol/sesiynau cymhorthfa.

GEC111

SGILIAU YSGRIFENEDIG DAEARYDDOL A

CHYNLLUNIO DATBLYGIAD PERSONOL

10 CREDYD, SEMESTER 1 a 2

Mae'r modiwl yma yn cynnig cyflwyniad i'r sgiliau allweddol ysgrifennu gwyddonol a datblygiad gyrfaol. Caiff y modiwl ei ddysgu yn ystod Semester 1 a 2 trwy raglen o diwtorialau grwp ac unigol cyfrwng Cymraeg (mae'r modiwl yma yn cyfateb i GEG111).

GEC120

CYMDEITHAS CYMRU GYFOES

20 CREDYD, SEMESTR 2

Os ydych chi am ddeall Cymru'n well, dyma'r modiwl i chi. Byddwn yn canolbwyntio ar amrywiol agweddau ar gymdeithas a diwylliant y genedl yn ystod yr ugeinfed ganrif a'r unfed ganrif ar hugain. Cewch flasuo pwnc newydd bob wythnos, gan gynnwys llenyddiaethau ac ieithoedd Cymru, natur a daearyddiaeth Cymru, y diwydiant cyfryngau, y system gyfreithiol a chysylltiadau Cymru â'r byd. Caiff y darlithoedd eu cyflwyno gan rai o ddarlithwyr cyfrwng Cymraeg gorau'r Brifysgol. Mae'r modiwl cyffrous a phoblogaidd hwn yn rhoi sylfaen gadarn i astudiaethau unrhyw fyfyrwr sydd yn meddu ar ddi-ddordeb yn y Gymru gyfoes.

GEC121

CYFLWYNIAD I'R DDAEAR: TROSOLWG DAEAREG

20 CREDYD, SEMESTR 1 a 2

Daeareg yw'r astudiaeth o gyfansoddiad, prosesau a hanes y Ddaear. Mae'r modiwl hwn yn cynnig trosolwg o'r testun, gyda phwyslais cryf ar agweddau ymarferol a gwaith maes. Ar ddiwedd y modiwl byddwch yn gallu adnabod mwynau a cherrig, a gwybod sut i'w dehongli er mwyn deall ymddygiad llosgfynyddoedd, ffurfiant a datblygiad gwregysau mynydd, dosbarthiad adnoddau, a hanes wyneb

y ddaear. Mae'r modiwl yn cydweddu gyda modiwlau daearyddol, yn enwedig daearyddiaeth ffisegol. Nid oes angen unrhyw brofiad blaenorol o astudio daeareg i ddilyn y modiwl. Darperir y modiwl trwy gyfrwng y Gymraeg, gyda darlithoedd Saesneg.

LEFEL 5

GEC206

Y BYD PERYGLUS

10 CREDYD, SEMESTR 1

Cynnigir darlithoedd cyfrwng Saesneg ar y modiwl hwn a seminarau cyfrwng Cymraeg ar ffurf grŵp bach cefnogol. Mae'r modiwl yn cynnig y cyfle i chi ddysgu ac ymchwilio i sut mae pobl yn dehongli ac yn byw gyda pheryglon naturiol. Bydd y modiwl yn ystyried y ffactorau sy'n troi peryglon naturiol yn drychinebau, a sut y gall yr effeithiau niweidiol yma gael eu lleddfu. Rhoddir sylw i'r prif beryglon naturiol canlynol: llosgfynyddoedd, daeargrynfeydd, tsunami, stormydd, tannau gwyllt, eirlithriadau a thirlithriadau.

GEC249

HAMDDEN, CYMDEITHAS A GOFOD

20 CREDYD, SEMESTR 2

Astudiwch y berthynas rhwng hamdden, cymdeithas, a gofod, trwy ymchwilio twf a datblygiad 'hamdden' fel gweithgaredd a set o ymarferion treulio arbennig o'r cyfnod diwydiannol i'r presennol. Byddwn yn astudio: sut y mae 'hamdden', 'gwaith', a'r syniad o 'amser-rhydd' yn cael eu gwahaniaethu; newidiadau i batrwm ein hymarferion hamdden a'r berthynas rhwng prynwriaeth, hunaniaeth a hamdden a'r posibiladau a gynigwyd gan hamdden ar-lein.

GEC250

GEOMORFFOLEG AFONOL

10 CREDYD, SEMESTR 1

Amcan y modiwl yw i ddarparu gwerthusiad manwl o'r prosesau sydd yn gweithredu o fewn basn afon cyfoes. Yn gyntaf, ystyrir system y llethr, lle mae prosesau mas symudiad a phrosesau creu sianeli yn bwysig. Mae gweddill y modiwl yn canolbwyntio ar brosesau sydd yn weithredol o fewn system y sianel. Ymhob darlith, cefnogir theori sianel gan enghreifftiau o astudiaethau achos, gan roi sylw penodol i oblygiadau prosesau geomorffolegol naturiol ar reolaeth afon.

GEC252

SGILIAU GWAITH MAES DAEARYDDOL 20 CREDYD, SEMESTR 1 a 2

Mae'r modiwl yma yn ymwneud ag adnabod a diffinio cwestiynau daearyddol o fewn lleoliad maes penodol, a defnyddio'r sgiliau, dealltwriaeth, a thechnegau daearyddol priodol i ymdrin â'r cwestiynau hyn. Mae'r modiwl yn cynnwys wythnos o waith maes mewn lleoliad penoddedig (gall fod yn dramor), a darlithoedd paratoadol a dilynol a dosbarthiadau arall.

GEC265

YMDRIN Â DAEARYDDIAETH DDYNOL 10 CREDYD, SEMESTR 1

Bwriad y modiwl hwn yw cyflwyno myfyrwyr i hanes ac athroniaeth daearyddiaeth ddynol, a'r gwahanol ffyrdd o ymdrin â'r ddisgyblaeth. Yn ogystal â chyfleu syniad o'r prif ymatebion hyn a'u hesblygiad, rhoddir pwyslais hefyd ar eu pwysigrwydd yn nhermau ymarferion ymchwil. Bydd myfyrwyr yn archwilio datblygiad y gwahanol ffyrdd o ymdrin â daearyddiaeth ddynol a beth yw goblygiadau hyn i ymchwil trwy astudio ffigurau allweddol yn hanes y ddisgyblaeth. Bydd y cyswllt rhwng yr ymatebion ymchwil damcaniaethol ac ymarferol yn cael eu hamlygu drwy greu portffolio grwp ac adolygiad llenyddiaeth unigol.

GEC266

YMDRIN A DAEARYDDIAETH FFISEGOL 10 CREDYD, SEMESTR 1

Bwriad y modiwl hon yw i gyflwyno myfyrwyr i hanes ac athroniaeth daearyddiaeth ffisegol, a'r wahanol ffyrdd o ymdrin â'r ddisgyblaeth. Yn ogystal â chyfleu syniad o'r prif ymatebion hyn a'u hesblygiad, rhoddir pwyslais hefyd ar eu pwysigrwydd yn nhermau ymarferion ymchwil, gan dynnu sylw yn arbennig i esiamplau cyfoes o wyddoniaeth 'da' a 'drwg'. Bydd myfyrwyr yn archwilio datblygiad y gwahanol ffyrdd o ymdrin â daearyddiaeth ffisegol a beth yw goblygiadau hyn i ymchwil trwy astudio testunau allweddol yn hanes y ddisgyblaeth. Bydd y cyswllt rhwng yr ymatebion ymchwil damcaniaethol ac ymarferol yn cael eu hamlygu drwy greu portffolio grwp ac adolygiad llenyddiaeth unigol.

GEC259

DADANSODDI DATA 10 CREDYD, SEMESTR 2

Mae'r modiwl hwn yn ystyried pwysigrwydd astudio data ystadegol ym meysydd Dynol a Ffisegol Daearyddiaeth. Yn ogystal i ystadegau,

mae'r modiwl hwn yn cyflwyno myfyrwyr i gyflwyno a dadansoddi data gan ddefnyddio Systemau Wybodaeth Ddaearyddol GIS ac yn rhoi trosolwg o'r testun gyda enghreifftiau ymarferol.

GEC263B

CYNNAL YMCHWIL GYMDEITHASOL: PROSIECT 10 CREDYD, SEMESTR 2

Mae'r modiwl hwn yn adeiladu ar ddealltwriaeth myfyrwyr o ddulliau ymchwil cymdeithasol (a'u darparwyd yn GEG263A) trwy gyfansoddiad prosiect ymchwil. Bydd sail prosiect y modiwl hwn yn datblygu dealltwriaeth a phrofiad o'r proses ymchwil, o ffurfio cwestiwn ymchwil, adnabod amcanion a nodau addas, dyfeisio cynllun ymchwil a dewis dulliau casglu data addas. Mae amser cyswllt yn cynnwys darlithoedd paratoadol, gwaith grŵp gyda mentor a sesiynau cyngor a chefnogaeth.

GEC268

PARATOADAU TRAETHAWD HIR 10 CREDYD, SEMESTR 2

Mae'r modiwl hwn yn paratoi myfyrwyr ar gyfer eu traethawd ymchwil trwy gyfres o diwtorialau sy'n canolbwyntio ar gyfansoddi a pharatoi cais ymchwil.

GEC264B

CYNNAL YMCHWIL AMGYLCHEDDOL:PROSIECT 10 CREDYD, SEMESTR 2

Mae'r modiwl hwn yn datblygu ar wybodaeth a dealltwriaeth myfyrwyr wrth drafod sut i ddylunio prosiect ymchwil, casglu ac yna dadansoddi data. Caiff myfyrwyr eu cyflwyno i dechnegau daearyddiaeth ffisegol a ddefnyddir yn y maes ac o fewn labordy ynghyd â dadansoddi data ystadegol a datblygu sgiliau cyflwyno. Bydd myfyrwyr ymarfer disgrifio a dehongli canlyniadau a gesglir wrth ddefnyddio technegau labordy gan ffocysu ar ail-greu hanes dyddodi gwaddodion, astudiaethau cemegol o waddodion o amryw o ffynonellau ac astudio prosesau geomorffoleg.

LEFEL 6

GEC331

TRAETHAWD HIR 30 CREDYD, SEMESTR 1 a 2

Mae'r Traethawd Hir yn deillio o brosiect ymchwil gwreiddiol, sylweddol ac annibynol ar unrhyw agwedd o ddaearyddiaeth ac yn rhoi cyfle i chi ddilyn eich diddordebau personol ac i ddangos eich galluedd fel daearyddwr/wraig. Mae'n

seiliedig ar tua 20-25 diwrnod o waith ymchwil cynradd a sawl wythnos o ddadansoddi ac ysgrifennu. Byddwch yn derbyn cefnogaeth gan grwp trafodaeth myfyrwyr (Modiwl GEG332 - posiblirwydd o 10 credyd ychwanegol) a gan aelod o staff penodedig.

GEC332 CEFNOGAETH TRAETHAWD HIR 10 CREDYD, SEMESTR 1 a 2

Mae'r modiwl hwn yn cynnig strwythur, trwy gefnogaeth grwp-cyfoedion dan arweiniad myfyrwyr a goruchwyllo gan staff academiaidd, i fyfyrwyr sy'n dilyn y modiwl 30 credyd 'Traethawd Hir Daearyddiaeth' (rhaid cymryd y ddau fodiwl ar y cyd). Caiff y broses cefnogaeth a goruchwyllo yma ei asesu trwy gyflwyniad poster PowerPoint yn ystod semestr 1, a chyflwyniad log beirniadol personol yn semestr 2 sy'n seiliedig ar y 5 cyfarfod grwp-cyfoedion a'r 4 cyfarfod grwp dan arweiniad tiwtor academiaidd (ynghyd â chofnod presenoldeb yn y cyfarfodydd). Trwy weithio o fewn grwp-cyfoedion dan arweiniad, cewch gyfle i gynnig beirniadaeth gefnogol i fyfyrwyr eraill sy'n ymgymryd mewn prosiectau ymchwil perthnasol, a dysgu o'u profiadau ymchwil a strategaethau datrys nhw.

GEC334 LLEOLIAD GWAITH 20 CREDYD, SEMESTR 1 a 2

Mae'r modiwl hwn yn eich galluogi i fanteisio ar y cyfle i brofi lleoliad gwaith sy'n berthnasol ar gyfer eich cwrs mewn sefydliad tu hwnt i'r Brifysgol. O ganlyniad i'r lleoliad gwaith hwn fe fyddwch yn datblygu eich sgiliau academiaidd a throsglwyddadwy mewn awyrgylch datrys problemau parhaol a fydd yn cynyddu eich cyflogadwyedd yn ogystal â'ch gwerthfawrogiad o'r math o ofynion a phwysau y mae defnyddwyr nad sydd yn academiaidd yn eu gosod ar academyddion. Sylwer fod y cynllun Ysgoloriaethau Cymhelliant yn cynnwys cyfnod o brofiad gwaith mewn maes amgylcheddol a gallwch ddefnyddio'r profiad gwaith yna ar gyfer y modiwl yma.

Am fwy o wybodaeth am unrhyw un o'r modiwlau uchod, gallwch e-bostio Dr Kate Evans: k.r.evans@abertawe.ac.uk

FFISEG

LEFEL 4

PH-129C FFISEG LABORDY 1 10 CREDYD, SEMESTR 1 A 2

Cyflwyniad i ansicrwydd arborofol a'i dadansoddiad. Ystyrir ystod o arbrofionmewn amrywiaeth ofeysydd, er enghraifft, ehangiad llinol o fetelau; ehangiad anomalous dŵr; tonnau acwstig; sbectromedr; pendil diddro; diffreithiant; pelydriad; electroneg; lensiau a drychau.

LEFEL 5

PH-210C a PH-211C FFISEG LABORDY 2 A PHROSIECTAU GRWP 20 CREDYD, SEMESTR 1a 2

Amcan y modiwl hwn yw i fyfyrwyr i wneud amrywiaeth o fesuriadau ffisegol ac i gasglu'r data mewn modd strwythuredig. Bydd myfyrwyr yn dod i arfer â gwahanol becynnau o feddalwedd ar gyfer coladu, dadansoddi a chynrychioli data. Bydd disgwyl iddynt gadw llyfrau labordy taclus a cynhwysfawr, ac i ysgrifennu adroddiadau eglur o'u harbrofion. Bydd y myfyrwyr hefyd yn cael profiad o weithio mewn amgylchedd tîm (neu grŵp) ar brosiect pum wythnos.

LEFEL 6

PH-311C PROSIECT 20 CREDYD, SEMESTR 1

Bwriad y prosiect yw i bara am un semester a rhaid bod yr adroddiadau ysgrifenedig ar y gwaith a gyflawnir yn cael eu derbyn cyn diwedd yr ail semester. Bydd pob prosiect â goruchwyliwr a dylai'r myfyrwr gysylltu'n agos gyda'r goruchwyliwr ar bob adeg. Yn ychwanegol i'r adroddiad ysgrifenedig, bydd y myfyrwyr yn rhoi cyflwyniad ar ffurf poster ac yn ateb cwestiynau ar eu gwaith.

PH-312C
ARBROFION OPSIWN
10 CREDYD, SEMESTR 2

Arbrofion a gynhaliwyd mewn dwy sesiwn labordy 3-awr wythnosol ar bynciau sy'n ymwneud â Lefel 2/3 cyrsiau Opsiwn.

PH-325C
ADDYSGU FFISEG DRWY LLEOLIAD MEWN YSGOL
10 CREDYD, SEMESTR 2

Mae'r modiwl hwn ar gyfer myfyrwyr sydd â diddordeb mewn mynd i mewn i addysgu, ac yn cynnwys lleoliad wythnosol mewn ysgol leol o dan fentoriaeth athro ffiseg. Bydd y myfyriwr yn cymryd rhan mewn arsylwi ac mewn gwahanol weithgareddau addysgu. Bydd y modiwl yn cael eu hasesu ar sail yr adroddiad y mentor ac ar waith prosiect ysgrifenedig.

FHEQ Lefel 7:

PH-M24C
PROSIECT YMCHWIL
60 CREDYD, SEMESTER 2

Bydd myfyrwyr sy'n dilyn y modiwl hwn yn perfformio prosiectau unigol sy'n seiliedig ar destunau Ffiseg uwch.

Am fwy o wybodaeth am y modiwlau uchod, gallwch e-bostio
Dr Aled Isaac; c.a.isaac@abertawe.ac.uk

MATHEMATEG

LEFEL 4

MAW-101
CYFLWYNIAD I GALCWLWS
15 CREDYD, SEMESTR 1

Mae'r modiwl yn cyflwyno cysyniadau sylfaenol megis setiau, ffwythiannau, terfannau, differu ac integru.

MAW-112
CYFLWYNIAD I ALGEBRA LLINOL
15 CREDYD, SEMESTR 2

Mae'r modiwl yn cyflwyno rhifau cymhlyg, fectorau, matricesau a gofodau fector haniaethol.

MAW-135
GEOMETREG
10 CREDYD, SEMESTR 1

Mae'r modiwl yn cyflwyno strwythurau sylfaenol mewn dimensiwn dau a thri a'u priodweddau.

LEFEL 5

MAW-201
DADANSODDIAD REAL A GWAGLEOEDD METRIG

15 CREDYD, SEMESTR 1

Mae'r modiwl yn ehangu ar syniadau megis didoriant a chydygeiriant i wagleoedd metrig, gan gyflwyno cyflawnrwydd a chrynodder a chanlyniadau ôl-ddiilynol.

MAW-211
GWAGLEOEDD FECTOR
15 CREDYD, SEMESTR 1

Mae'r modiwl hwn yn ymdrin â theori gwagleoedd fector a gwagleoedd lluoswm mewnol ynghyd â theori trawsffurfiadau llinol.

MAW-202
CALCWLWS FECTOR A THEORI MESUR
15 CREDYD, SEMESTR 2

Cyflwyniad i galcwlws fector, integru drosardaloedd anunffurf a chysyniadau allweddol o fewn theori gyffredinol mesur.

MAW-212
GRWPIAU A CHYLCHOEDD
15 CREDYD, SEMESTR 2

Mae'r modiwl hwn yn ymdrin â'r theori ynghylch grwpiau a chylchoedd fel gwrthrychau algebraidd haniaethol.

LEFEL 6

MAW-300
PROSIECT
30 CREDYD, SEMESTR 1 a 2

Mae'r modiwl hwn yn darparu cyfle i fyfyrwr archwilio testun mathemategol penodol ac i ddysgu am bynciau newydd heb gyfarwyddyd. Mae'n datblygu gallu mewn ymchwilio, TG, cynllunio prosiect, cyflwyniadau llafar ac ysgrifenedig, a llunio adroddiadau. Bydd pob myfyriwr yn cael ei arolygu gan aelod o staff.

MAW-301

**NEWIDYNNAU CYMHLYG
15 CREDYD, SEMESTR 1**

Mae'r modiwl hwn yn ymdrin â mapiadau gwerth-cymhlyg o un newidyn cymhlyg. Trafodir priodweddau geometrig a dadansodol o ffwythiannau holomorffig.

Am fwy o wybodaeth am unrhyw un o'r modiwlau uchod, gallwch e-bostio Dr Kristian Evans: k.evans@abertawe.ac.uk

Profiad Gwaith, Cyflogadwyedd a Chyfleoedd Rhyngwladol

Mae gradd yn bwysig er mwyn sicrhau swydd dda, ond mae cyflogwyr yn chwilio am lawer mwy na gradd wrth ddewis pa raddedigion i'w cyflogi. Bydd sicrhau profiad gwaith a datblygu sgiliau wrth astudio ac yn ystod y gwyliau yn eich gwneud yn fwy abl i gystadlu am swyddi.

Mae Academi Hywel Teifi wedi datblygu modiwl cyfrwng Cymraeg newydd sydd yn agored i bob myfyriwr Lefel 5 beth bynnag yw eich cwrs gradd. Mae'r modiwl yma yn rhoi cyfle i chi fanteisio ar leoliad profiad gwaith cyfrwng Cymraeg mewn maes priodol i'ch gradd gan ddatblygu sgiliau cyflogadwyedd hanfodol.

**AHT200
PROFIAD GWAITH
20 CREDYD, SEMESTER 2**

Ar y modiwl hwn byddwch yn treulio cyfnod o 10 diwrnod ar brofiad gwaith gyda sefydliad, elusen, busnes neu sefydliad llywodraethol yng Nghymru. Byddwch yn mynychu'r lleoliad un diwrnod yr wythnos drwy gydol y tymor er mwyn datblygu sgiliau cyflogadwyedd a dealltwriaeth gynhwysfawr o fydd gwaith. Yn ogystal, bydd darlithoedd a seminarau fydd yn meithrin eich sgiliau cyflogadwyedd ac yn eich galluogi i wneud y mwyaf o'ch cyfnod profiad gwaith ac yn eich paratoi ar gyfer ymgeisio am swyddi.

Am fwy o wybodaeth, gallwch e-bostio: lestyn Llwyd:i.llwyd@abertawe.ac.uk

**ACADEMI CYFLOGADWYEDD
ABERTAW (SEA)**

Mae Prifysgol Abertawe wedi sefydlu academi newydd er mwyn cefnogi myfyrwyr sydd am gynyddu eu sgiliau cyflogadwyedd, sef Academi Cyflogadwyedd Abertawe. Mae'r Academi'n hyrwyddo mentrau newydd, yn dangos arfer da ac yn darparu cyfleoedd a fydd yn eich galluogi i wella'ch sgiliau a chofnodi'ch cyraeddiadau drwy ddefnyddio'r Adroddiad Cyrhaeddiad Addysg Uwch. Dau gynllun a gynigir yw Rhwydwaith Interniaeth â Thâl Abertawe (SPIN) a'r Wythnos o Waith (WoW) Ewch i www.swansea.ac.uk/cy/academicyflogadwyedd am fwy o wybodaeth.

CYFLEOEDD RHYNGWLADOL

Mae rhaglenni astudio dramor yn rhoi'r cyfle i chi ennill sgiliau rhyngbersonol a throsglwyddadwy gwerthfawr fel trefnu a chynllunio, cydweithredu, datrys problemau a chyfathrebu. Mae cyflogwyr yn cydnabod pwysigrwydd, ac yn disgwyl, dealltwriaeth o faterion rhyngwladol neu o ddiwylliannau eraill yn eu graddedigion. O ganlyniad, mae'r Brifysgol yn cynnig nifer o gyfleoedd i chi astudio fel rhan o'ch gradd neu i fanteisio ar un o'n rhaglenni haf. Mae gennym gysylltiadau ar gyfer cyfleoedd i weithio dramor, i wirfoddoli dramor neu i astudio dramor gyda 100 o brifysgolion partner o gwmpas y byd, o Ewrop i Asia a Awstralasia i Ogledd a De America.

Am fwy o wybodaeth am y cyfleoedd sydd ar gael i chi, cysylltwch â Swyddfa Datblygu Rhyngwladol y Brifysgol: studyabroad@swansea.ac.uk

Academi
Hywel Teifi



Prifysgol Abertawe
Swansea University

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch ag:

Academi Hywel Teifi
Adeilad Talbot
Prifysgol Abertawe
Abertawe SA2 8PP

astudio@abertawe.ac.uk
+44 (0)1792 602070

www.abertawe.ac.uk/academihywelteifi